

ECO'R WYDDFA

RHIF 355

MAI 2008

PRIS 40c

Yn y Rhifyn Hwn...

- Galw trigolion Llanberis – Rydym ni Yma i Helpu! – tud. 3
- Gŵyl Ffidil yr Wyddfa 14 Mehefin – tud. 10
- Atgofion Hen Sgotwr – tud. 17
- Ieuan Gwyn Closs Evans – tud. 18

O! Diolch Ffyddloniaid...

Dyna oedd y gân mewn dwy eglwys yn y fro yn ystod y mis diwethaf. Daeth cyfle i gydnabod gwasanaeth ac ymroddiad tri pherson i'w heglwysi.



Miss Catherine May Rowlands a'r Parchedig Robert Townsend.

Sant Mihangel, Llanrug

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blyneddol Cyffredinol ar ddydd Mawrth, Ebrill 15. Yn ystod y cyfarfod cyflwynodd y Parchedig Robert Townsend lun arbennig o'r eglwys wedi ei fframio i Miss Catherine May Rowlands ar ei hymddeoliad. Mae Miss Rowlands wedi cwblhau deugain mlynedd o wasanaeth ffyddlon mewn ffurfiau gwahanol i'r Eglwys yn Llanrug.

Arlunydd lleol, Howard Mitchell, wnaeth y llun – a ddaeth i gylchrediad yn 1993. Gwnaed 150 yn unig o gopiâu ohono ac mae un bellach yn eiddo i Miss Rowlands. Derbyniodd hefyd fased hardd o flodau fel gwerthfawrogiad am ei holl waith caled dros y blyneddau. Mae holl aelodau Cyngor a chynulleidfau Eglwys Sant Mihangel yn dymuno iechyd da a phob hapusrwydd iddi i'r dyfodol. Yr un yw dymuniadau pentrefwyr Llanrug hefyd.



gychwyn gyda'i dad, Thomas Owen (Clochydd). Roedd y meibion i gyd yn cymryd eu tro ar y gloch, sef Robin (Bob), Huw, Twm, Ifan ac Ernest.

Cychwynnodd Ernest ganu'r gloch tra'n dal yn yr ysgol a bu wrth y gwaith ers hynny. Bydd yn bedwar ugain oed mis Tachwedd nesaf! Ni chanwyd y gloch drwy gyfnod y rhyfel a, chan fod ei frodyr yn y fyddin, Ernest gafodd yr anrhydedd o ganu'r gloch i nodi fod y rhyfel wedi dod i ben.

Cloch yr eglwys oedd cloc dydd Sul pobl Llanberis a rhaid oedd bod yn brydlon i'r eiliad neu fe fyddai'n rhaid ateb i Thomas Owen. Yn y cyfnod cynnar, rhaid oedd canu'r gloch chwe gwaith pob Sul – am 8, am 10 ac yna am 11 y bore (y gwasanaeth Saesneg) Yna ar gyfer yr ysgol Sul am 2, y gwasaneth Saesneg am 5 ac yna yr un Cymraeg am 6 yr hwyr.

Ar ben ei ddyletswyddau fel clochydd, roedd Ernest yn Is-Warden yr eglwys hefyd. Cyn dyfodiad y boiler nwy, rhaid oedd gosod tân oer ar nos Sadwrn a'i danio am 7.30 fore Sul. Ac, wrth gwrs, roedd llawer o waith cynnal a chadw ar yr adeilad, fel glanhau'r gwterydd a thorri'r gwair.

Da gwybod fod Dafydd, mab Ernest, am olynu ei dad i wneud y gwaith a pharhau llinach y clochyddion.

Talwyd teyrnged i Mrs Evans a Mr Owen gan y Rheithor, y Parchedig Robert Townsend; Mr. Gordon Owen, Mr John Roberts a Mrs. Susan Williams, a chyflwynodd Mrs Anne Parry Jones farddoniaeth a gyfansoddodd yn arbennig ar gyfer yr achlysur.

Mawr yw diolch y ddau i Mr Ralph Jones am drefnu'r noson fythgofiadwy iddynt.

Pob dymuniad da ac ymddeoliad hir a hwylus i'r ddau ohonoch gan holl drigolion Llanberis a'r fro hefyd.



a bu'n syndod rhyfeddol iddynt gerdded i mewn i'r ystafell fwyta orlawn a chael eu cyfarch gan groeso byddarol.

Ar ddiwedd y pryd blasus, fe'u anrhegwyd i nodi gwerthfawrogiad pawb o'u gwasanaeth diflino dros nifer fawr o flynyddoedd. Derbyniodd Mrs Evans icon arbennig o brydferth o'r Forwyn Fair a'i Phlentyn, ac fe dderbyniodd Mr Owen wy arian o'r Croeshoeliad a'r Dyrchafael, gyda cherfluniau hynod o gywrair arno. Hefyd, cyflwynwyd torch o flodau i Mrs. Evans ac i Mrs Nan Owen, gwraig Ernest.

Bu Mrs Audrey Evans yn Warden y Rheithor yn St Padarn am ddeunaw mlynedd, gan gychwyn gyda'r Parch. Peter Pritchard. Hi oedd yn gyfrifol am drefnu a pharatoi popeth oddi fewn i'r eglwys tra roedd Ernest yn gofalu am y tu allan. Pob lwc i'w holynydd, Mrs Dilys Roberts, Arlys.

Mae Ernest yn un o linach clochyddion Llanberis, gan



Sant Padarn, Llanberis

Dridiau yn ddiweddarach, ar nos Wener, 18 Ebrill, daeth aelodau Eglwys St Padarn a St Peris ynghyd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Dathlu a diolch oeddynt am wasanaeth ffyddlon a hirfaith Mr Ernest Owen a Mrs Audrey Evans i Eglwys St Padarn. Darparwyd popeth yn ddarwybod i'r ddau

ECO'R WYDDFA

**RHIF 355
MAI 2008**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost
alwena@gwasggwynedd.com
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

**Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol**

DYDD LLUN, 19 MAI

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 29 MAI

Dyddiad Gosod

SUL 25 MAI am 5.00

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mehefin	19 Mai	29 Mai	Brynrefail	Gwyn H Jones	870 848
Gorffennaf	16 Mehefin	26 Mehefin	Bethel	Geraint Elis	(01248) 670 726

MERCHED Y WAWR RHANBARTH ARFON

Bore Coffi

wedi'i drefnu gan
Bwyllgor er budd yr Anabl
**Canolfan Capel Ebenezer
Caernarfon**

bore Gwener, Mehefin 6
rhwng 10.00 a 12.00.

CESGLIR ELENÍ TUAG AT
Tŷ GOBAITH, CONWY

Annwyl Olygydd

Ysgrifennaf atoch i ofyn i grwpiau
lleol a ydynt eisiau siaradwyr ar
gyfer eu digwyddiadau?

Yn ystod y blynyddoedd
diwethaf mae llawer o aelodau lleol
Ymgyrch Cefnogi Nicaragua
Cymru wedi bod i'r wlad yng
nghanolbarth America, ac wedi
siarad am eu profiad ar ôl iddynt
ddychwelyd. Rydym wedi cynnal
sgyrsiau yng Ngwynedd gyda
grwpiau Merched y Wawr, grwpiau
ieuenctid a dosbarthiadau ysgolion,
grwpiau capeli, chwiorydd ayyb.

Fel arfer rydym wedi siarad am y
profiad o aros ar fferm coffi
masnach deg, neu ein cefnogaeth i
Brosiect La Chuerca, sef prosiect
plant sy'n gweithio a byw ar domen
sbwriel enfawr ym mhrifddinas
Nicaragua.

Os oes unrhyw grŵp eisiau
gwahodd siaradwr/wraig o'r
Ymgyrch, cysylltwch â ni,
Yn gywir

BEN GREGORY

Tŷ Iorwerth

Ffordd y Sir,

Penygroes LL54 6ES

(01286) 882 134

benica@gn.apc.org

Annwyl Gyfeillion,

*Etholwyr Ward Penisarwaun a
Brynrefail*

Fel y gwyddoch, mae etholiad ar y
cyntaf o Fai i ethol cynghorwyr i
Gyngor Gwynedd. Er i mi ddisgwyl
etholiad yma, nid felly y bu. Yr wyf
wedi'm hethol yn ddi-
wrthwynebaidd.

Carwn ddiolch o galon i bobl
Brynrefail, Penisarwaun a Rhiwlas
am eu cefnogaeth dros y
blynyddoedd. Petaech angen
cymorth, fy rhif ffôn yw (01286) 870
533.

Yn ddiffuant

PATRICIA LARSEN

Minallt

Bro Elidir

Dinorwig

Annwyl Olygydd,

Ni allaf adael i'r cyfle yma syrthio
o'm dwylo heb fanteisio ar y cyfle i
dalio diolch i Mr Eric Roberts, cyn-
Bostfeistr y Swyddfa Bost yn
Neiniolen. Bu i'r swyddfa gau yn
hollol ddisymwth. Mae yn andros o
golled heb Swyddfa Bost yn
Neiniolen, ond o golli gŵr o safon

Mr Roberts, mae'r golled yn andros
o fawr.

Yr oedd wedi ei dorri allan i'r
swydd. Doedd dim yn ormod
ganddo. Yr oedd yn barod i
gynorthwyo yr henoed fel yr ifanc,
ac yr oedd sgwrs ganddo ar gyfer
pawb, ac nid oedd yn brin ei wên
'chwaith. Gwenai bob amser, er ar
adegaubod cyflwr y Swyddfa
ymhell o fod yn foethus.

Yr wyf yn deall for Mr Roberts
ar hyn o bryd yn gweithio yn
Llanberis, ac mae'n rhaid dweud
mai eu hennill hwy yw ein colled
ni.

Mr Roberts, derbyniwch ddiolch
yr ardal am bob gair o groeso a
chymwynasau lu a dderbyniasom
gennych.

Diolch yn fawr iawn

MARIAN JONES

RHODDION

£20: Megan Jones, 56
Glanffynnon, Llanrug; Mr
P. W. Williams, Corby.

£10: Audrey Evans, 2 Bryniau
Gerddi, Llanberis; Mrs Bet
Lloyd Jones, Lyndale, Ffordd
yr Orsaf, Llanrug; Joyce
Jones, 2 Bryn Fedwen,
Llanrug; Mrs Mair Jones, 17
Glanmoelyn, Llanrug; Rachel
Thomas, Min y Rhos,
Llanrug; Owen Jones,
Llangefni; Mrs A.
Sidebotham, Whalley Bridge;
Olwen Ebrell, Coventry; Mr
J. Evans-Hughes, Kirby
Muzloe; Gwerfyl McCarthy,
Childwall; Di Enw; Emrys
Owen, Solihull: er cof am
Jenny; Ceinwen Jones
Porthaethwy a Margaret Wyn
Roberts, Caernarfon: er cof am
Ieuan Gwyn Closs Evans.; Mrs
Nellie Williams, 29
Rhydfadog, Deiniolen; Pat a
Leslie Larsen, Llygad yr Haul,
Penisarwaun; Mrs Nel
Williams, 2 Bryn Tirion,
Penisarwaun. Gwilym Ellis,
Llandrindod, Powys.

£5: Gordon a Gill Parry,
Gwalia, Pen-ar-Lâg; Eurwen
Roberts, 47 Rhydfadog,
Deiniolen; Mrs Mair Griffith,
Bodfan, Abergwyngregyn;
Eifion Williams, Rhydfadog,
Deiniolen; Teulu y ddiweddar
Mrs J. Monica Roberts, Bryn
Golau, Waunfawr; Teulu Ty'n
Weirglodd, Betws Garmon;
Dilys Fouracres, Llundain;
Geraint Huws Roberts; Mrs B.
Williams, Llanfairpwll;
Ronnie (Llanbabs) Williams,
Ayleston; Mrs Olive Thomas,
Llanddaniel; Mrs N. Lovatt,
Aberystwyth; Jenny Davies,
Llangeitho; Mrs A. Rhys
William, Rhyl; Mrs Nancy
Parry, Penygroes.

£2: Glyn Roberts, Bethel.

Ymgyrch Gyffrous 'Ar y Gweill'

Achub y Plant yn galw ar
wragedd (a dynion!) bro'r Eco i
fynd ati i wau!



Mae elusen Achub y Plant yn
gwneud gwaith pwysig iawn yn
achub bywydau miliynau o blant ar
hyd a lled y byd. Yn ddiweddar fe
wnaethon nhw lansio eu hymgyrch
fwyaf erioed i ddangos pa mor syml
yw hi i achub bywyd plentyn.

Mae deng miliwn o blant yn
marw bob blwyddyn cyn eu bod yn
5 oed. Mae hynny'n llond bws o
blant bob 3 munud. Mae 4 miliwn o
blant yn marw o fewn mis cyntaf eu
bywyd. Y peth gwaethaf am hyn yw
bod y rhan fwyaf yn marw o
achosion y gellir eu hatal, fel y
dolor rhydd, malaria a niwmonia.
Gall atebion syml fel brechiadau,
rhwydi mosgito a dŵr glân, pethau
nad ydynt yn costio llawer iawn i'w
prynu, achub bywydau plant.

Ond sut allwn ni helpu?

Am lai na £5.00 fe allwch chi brynu
nwyddau fel net mosgito, past cnau
sy'n llawn maeth, brechiad neu
flanced i gadw babi yn gynnes. Fe
allwch chi hefyd helpu drwy fynd
ati i wau hetiau er mwyn achub
bywyd babi mewn gwlad sy'n
dioddef nifer fawr o farwolaethau
newydd-anedig, fel Kenya, Sierra
Leone neu Tibet.

Mae tua hanner y babanod sy'n
cael eu geni yn Nhibet yn Asia yn
dioddef o hypothermia yn ystod
wythnos gyntaf eu bywyd ac yn
llawer mwy tebygol o ddal
niwmonia. Mae niwmonia yn dal i
ladd tua 2 filiwn o blant bob
blwyddyn. Y broblem yw na all
babanod reoli tymheredd eu cyrff
ac maent mewn perygl os ydyn
nhw'n cael eu geni mewn hinsawdd
oer neu gynnes. Dim ond 2 funud
mae'n cymryd i fabi newydd-anedig
golli 2° peryglus yn nhymheredd ei
gorff. Collir y rhan fwyaf o'r gwres
hanfodol yma drwy fannau meddal
ar ben y babi

Ewch ati i wau...

Estynnwch am eich gweill i helpu i
gadw babi newydd-anedig yn
ddiogel rhag afiechydon marwol, fel
hypothermia a niwmonia. Gall eich
het chi helpu achub bywyd babi.

Ond mae ar y babanod hyn
angen mwy na dim ond hetiau -
maen nhw angen i chi godi llais ar
eu rhan. Rydym ni'n gofyn i bawb
sy'n gwau het i osod neges fer arni.
Rhowch wybod i'r gwleidyddion
mai digon yw digon. Os na fyddan
nhw'n gweithredu nawr, bydd
miliynau o blant yn parhau i farw
yn ddiangen bob blwyddyn.

EURGAIN HAF

Swyddog y Cyfryngau,
Achub y Plant (rhaglen Cymru)

Galw trigolion Llanberis – Rydym ni Yma i Helpu!

Gyda phrisiau ynny yn cynyddu, a mwy a mwy o bobl yn ei chael hi'n anodd i wresogi eu tai ar lefel cyfforddus, gall trigolion Gwynedd wneud y mwyaf ar gynllun arloesol allai wella effeithlonrwydd ynnu eu cartrefi yn rhad ac am ddim.

Gyda chynllun 'Yma i Helpu' eisoes wedi tragedu cartrefi preifat mewn 27 o wardiau Gwynedd, yn fuan bydd Cyngor Gwynedd, mewn partneriaeth gyda Nwy Prydain yn cynnig y prosiect 'Yma i Helpu' i gartrefi sector breifat yn ardal Llanberis.

Bydd y cynllun yn cael ei lansio yng Nghanolfan Ymwelwyr y Mynydd Gwefru, Llanberis, ar ddydd Iau, 8 Mai. Yn y lansiad, bydd cyfle i drigolion weld arddangosfa o wybodaeth, yn ogystal â chael cyfle i drafod y prosiect gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd a Nwy Prydain. Bydd arolygywr o gwmni Hillserve Insulation, sy'n ymwneud â'r cynllun hefyd wrth law i drefnu apwyntiadau ar gyfer eu harolwg.

Bydd lansiad Llanberis ar agor i'r cyhoedd rhwng 3pm a 7pm. Hefyd yn mynychu, bydd y Ganolfan Gynghori, Swyddog Budd-daliadau Treth Cyngor, cynrychiolwyr o'r Cynghrair Iechyd Lleol, Rheolwyr Rhawd Cymunedol lleol, tra y bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnig profion diogelwch tân a larymau mwg am ddim.

Nid yw'r cynllun 'Yma i Helpu', sydd wedi ei ariannu ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Nwy Prydain, yn costio unrhyw beth i gartrefi sy'n cymryd rhan, os ydynt yn byw yn llawn amser yn ward Llanberis. Bydd y cynllun yn lleihau nifer y trigolion sy'n byw mewn tlodi tanwydd – sef cartrefi lle mae mwy na 10% o incwm y cartref yn cael ei wario ar danwydd.

Dyweddodd Adrian Roberts, Swyddog Rheoli Perfformiad (Tai) Cyngor Gwynedd:

'Mae prosiect Yma i Helpu yn

tanlinellu ymrwymiad y Cyngor i leihau nifer y tai sy'n dioddef o dlodi tanwydd. Rydym wedi ymrwymo i roi trigolion Gwynedd yn gyntaf, ac fel rhan o'r prosiect blaengar yma, mae nifer o drigolion y Sir eisoes wedi cael gwirio effeithlonrwydd ynnu eu tai, a hynny yn rhad ac am ddim. Bydd cyfle bellach i drigolion Llanberis ymuno yn y cynllun, a gobeithio y bydd nifer ohonynt yn gallu elwa.'

Nid oes gofyn i berchnogion tai sy'n cymryd rhan yn y prosiect fod yn gwsmeriaid Nwy Prydain, na hyd yn oed gael cyflenwad nwy yn y tŷ er mwyn bod yn gymwys. Bydd pob cartref preifat yn yr ardal ddewisedig yn derbyn llythyr gan Nwy Prydain yn eu gwahodd i gymryd rhan, ac yna bydd y cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith, sef Hillserve Insulation, yn cysylltu â phawb i drefnu apwyntiad i gynnal arolwg o'r cartref.

Bydd cartrefi sy'n gymwys am fesurau gwella effeithlonrwydd yn cael cynnig insiwleiddio ceudod y waliau, insiwleiddio'r llofft a siacedi tanc dŵr poeth, wedi ei ariannu gan Gyngor Gwynedd a Nwy Prydain. Bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i

ardaloedd Llanrug, Cwm y Glo a Phenisarwaun ar ddiwedd mis Mehefin, ac yna i wardiau Aberdaron a Botwnnog ym mis Medi.

Ychwanegodd Anita Jones, Rheolwraig Datblygu Busnes Hillserve Insulation:

'Rydym yn hynod falch fod Cyngor Gwynedd eisiau gweithio gyda ni unwaith eto er mwyn brwydro yn erbyn tlodi tanwydd. Mae "Yma i Helpu" yn unigryw gan ei fod yn dod â'r sector breifat, gyhoeddus a gwirfoddol at ei gilydd, ac rydym yn siŵr y bydd yn dod â nifer o fuddion i gartrefi yn ardal Gwynedd.'

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

DIOLCHIADAU. Yn dilyn marwolaeth Bleddyn Roberts yn Arddleen (gynt o Lanberis), priod addfwyn Heddwen (Cwm-y-glo gynt), tad arbennig Trystan a Sion a thaid hoffus, fe ddymuna'r teulu, yn cynnwys ei chwaer, Prydwen a'i frawd Goronwy, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem.

Dyma englyn a wnaeth Dafydd John Pritchard ar gyfer y Cyfarfod Coffa yn y Trallwng dydd Sul, 13 Ebrill.

Bledd, yr addfwynaf ei lafar, a'i ddweud

Yn ddweud diymhongar;
Carodd yntau'r geiriau gwâr,
ac o'i ôl mwy yw'n galar.

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd
Ffôn: (872133)

DIOLCH. Dymuna Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Yr un modd carai hi a Mair ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli ei chwaer, Bett.

DIOLCH. Dymuna John a Ruth Jones, 94 Pentre Helen, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion a gawsant ar achlysur eu Priodas Ruddem ar 2 Mawrth.

HOFFAI Eifion Williams, Rhydfadog, ddiolch yn fawr am y cardiau, negeseuon ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd diweddar.

ORGAN AR WERTH. Mae Capel Cefn-y-Waun yn gwerthu organ y capel. Mae'r organ hon mewn cyflwr arbennig o dda. Cysylltwch â Mr Irfon Thomas (01286 871 964) am fwy o fanylion.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR CYLCH DEINIOLEN A CHWM Y GLO. Cynhelir y Gymanfa yn Festri Capel Ebeneser, bnawn Sul, 18 Mai am 2.00 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd Gareth Jones, Llanberis.

Bydd bws yn cychwyn o Lanberis am 1.15; Cwm y Glo am 1.25; Penisarwaun am 1.30.

Gwneir casgliad. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:

(01286) 675754

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

SIOP FORMAG LLANBERIS

41A STRYD FAWR, LLANBERIS • Ffôn: (01286) 872501

**SÊL CAU I LAWR
RHAID I BOPETH FYND
I GYCHWYN MAI 1af**

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

DIOLCH. Dymuna Margaret, Richard a Michael, Porthaethwy, teulu'r diweddar Ieuan Gwyn Closs Evans, gynt o Bron 'Rallt, Cwm y Glo, ddiolch o galon i ffrindiau o'r ardal am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth.

YSGOL CWM Y GLO

Roedd pawb yn drist ar ddiwedd y tymor pan fu raid dweud ffarwel wrth Mrs. Eleri Davies. Bu'n bennaeth arnom am bron i bedair blynedd a diolchwn iddi am ei gwasanaeth a'i chyfeillgarwch yn ystod ei hamser yma. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd fel Pennaeth Ysgolion Coed Mawr a Glanadda ym Mangor.

Croesawn ein pennaeth newydd y tymor yma, sef Mrs Nia Oliver. Mae'n wyneb cyfarwydd i ni i gyd gan ei bod eisioes yn athrawes yn yr ysgol a dymunwn yn dda iddi hithau yn ei swydd newydd.

Croesawn Miss Delyth Haynes



Mrs Eleri Davies

atom y tymor yma hefyd. Mae'n fyfyrwr TAR a bydd yn treulio ei chyfnod yma yn nosbarth y plant hynaf. Maent eisioes wedi cychwyn dysgu chwarae'r recorder gyda hi.

Cafodd dosbarth Marchlyn fynd ar ymweliad i'r Foryd wrth astudio Gwarchodfa Natur Leol. Diolchwn

i'r Warden, Rhys Roberts, am ddysgu llawer o ffeithiau diddorol i ni.

Cafodd ddosbarth Llydaw fynd ar ymweliad i Gastell Penrhyn i ddysgu am fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ewch draw i'r Albwm ar y wefan i weld eu lluniau

(www.ysgolcwmyglo.org)

Mae dosbarth Llydaw yn ffodus iawn o gael gwesi dawns gyda Olwen Green, fel rhan o gynllun PESS y tymor yma. Bydd dydd Mercher yn ddiwrnod prysur iddynt gan fod Campau'r Ddraig ar ôl yr ysgol!

PLYGU'R ECO. Diolch i'r criw bach ffyddlon, Siân, Kate, Rhian, Lowri a Shannen, am ddod i blygu'r Eco eto eleni, hefyd i'r ofalwraig, Christine Howard, a Mrs Nia Oliver.

YN YR YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mr Elwyn Foulkes, Rhys Bryn, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLAD. Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Ieuan Gwyn Closs Evans, Lôn Isa, Porthaethwy, mab y diweddar Evan a Mary Closs Evans (Nys Closs), Tan 'Rallt. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Margaret, ei ddau fab, Richard a Michael, ei wyron, Mark a Sam, ei frawd, John Llewelyn, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw gweld Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, wedi gwella ar ôl treulio deuddydd yn Ysbyty Gwynedd

wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich. UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen yn yr ysgol Gymuned nos Lun, 7 Ebrill. Agorwyd y cyfarfod gan Mrs Dorothy Jones, ac estynnodd groeso cynnes i bawb. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Gwen Owen a Mrs Marjorie Roberts. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Mai a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Cydymdeimlwyd gyda Mrs E. Jones, Lyndale, Llanrug.

Croesawyd y wraig wadd, Mrs Elizabeth Woodcock, gan Dorothy a chafwyd sgwrs a fideo diddorol ganddi am y gwaith mae Tearcraft yn ei wneud a mwynhaodd y merched eu hunain yn creu mwclis. Ar ôl lluniaeth, wedi ei baratoi gan Mrs Joyce Ransom a Mrs Enid Taylor, cafwyd amser i brynu oddi ar y stondin Tearcraft.

Roddwyd y raffl gan y gwesteion ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwyneth Roberts. Diolchwyd i Elizabeth a'r gwesteion gan Dorothy. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR CYLCH DEINIOLLEN A CHWM Y GLO. Cynhelir y Gymanfa yn Festri Capel Ebeneser, bnawn Sul, 18 Mai am 2.00 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd Gareth Jones, Llanberis.

Bydd bws yn cychwyn o Lanberis am 1.15; Cwm y Glo am 1.25; Penisarwaun am 1.30.

Gwneir casgliad. Taer erfynnir am eich cefnogaeth

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar nos lau, 20 Mawrth, aeth ugain o aelodau'r gangen i'r Faenol Arms, Nant Peris, i ddathlu Gŵyl Dewi. Ar ôl cyrraedd cawsom groeso cartrefol gan Ann a'i staff, a bwyd bendigedig.

Ar ôl y gwledda fe gawsom noson hwyliog gyda'r digrifwr, Tudur Owen. Llund bol o chwerthin - diolch Tudur.

Diolchwyd i Gwenda am drefnu'r noson.

* * *

Yng nghyfarfod mis Ebrill, o dan lywyddiaeth Pat Jones, treuliwyd orig ddifys dros ben yng nghwmni yr actores, Maureen Rhys, yn gwrando arni yn sôn am ei phlentyndod hapus yng Nghwm y Glo ac am ei phrofiadau fel actores. Hefyd cawsom fraslun o'r theatr a'r ddrama ganddi.

Daeth Sefydliad y Merched y Felinheli atom fel gwesteion a cawsant hwythau hefyd yr un mwynhad.

Noddwyd y noson gan yr Academi. Bydd y cyfarfod nesaf ar 15 Mai.

PROFEDIGAETH.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, ynghyd â theulu Glandŵr a Min y don, yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb, sef Katie May Jones, Fflat 40, Ffordd Llanbeblig, Caernarfon, ar 8 Ebrill yn 83 mlwydd oed. Roedd â chysylltiadau amlwg â'r pentref dros y blynyddoedd, yn ferch i'r diweddar John ac Annie Jones, 1 Tai Orwig a Phen Clegir, cyn hynny. Bu ei hangladd cyhoeddus yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, fore Sadwrn, 12 Ebrill, ac yn dilyn ym mynwent Llanrug, gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu, ac yn cael ei gynorthwyo gan Mr Merfyn Jones.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

Cymdeithas y Capel. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas am

dymor 2008 yn y Ganolfan nos lau, 10 Ebrill. Y Cadeirydd am y noson oedd Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Yn dilyn gair o groeso cynnes i bawb fe'n harweiniwyd mewn myfyrdod ganddo.

Ymhellach, cyflwynodd y siaradwr gwadd, sef Mr Gwyndaf Williams o Fethel. Testun ei sgwrs oedd 'Y Chwaer o Chicago', sef ffrwyth ymchwil diddorol i un o'i hynafiaid oedd efo'i rheini wedi ymfudo o Gymru i'r Amerig, cyn dychwelyd yn blentyn ieuanc i'r Tymbl yn ne Cymru. Roedd y torreth o lythyrau yn dyddio o gyfnod yr ymfudo yn cyfrannu'n fawr i deall hanes y cyfnod, ac yn bennaf aberth a dylfalbarhad dyn i ddod o hyd i waith i gynnal ei deulu.

Diolchwyd yn gynnes i Gwyndaf gan y Cadeirydd gydag amryw o'r aelodau gyda'u sylwadau yn gwerthfawrogi'r noson.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, 8 Mai. Y siaradwr gwadd fydd Gwyn Hefin Jones, gydag Ellen George yn cadeirio'r noson.

Ymchwil. Talwyd ymweliad yn ystod yr wythnosau diwethaf gan orwyres i Weinidog cyntaf Eglwys Brynrefail, sef y diweddar Richard Jones (Glan Alaw). Nid oes llawer o'i hanes, fe ymddengys, yn wybyddus i'r teulu erbyn hyn. Mae rhai cysylltiadau yn y pentref yn cofio eu rhieni yn sôn am gyfnod olaf ei weinidogaeth yma yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif diwethaf. Buasai'r teulu yn gwerthfawrogi yn fawr iawn unrhyw wybodaeth bellach.

Oedfaon Mai.

- 4: Cymanfa Dosbarth Padarn
- 11: Sul y Pentecost
5.30: Mrs G. Alwena Williams, Llanddona.
- 19: 5.30; Mr J.O. Roberts, Bethesda.
- 25: 5.30: Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.



Owen a Lee yn dychmygu sut deimlad oedd bod yn faciwi.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
Cyf

O SIAMBAR SELWYN

Rydw i wedi arfer mynd yn rheolaidd at y deintydd ar optegydd. Dwi ddim yn or-hoff, mwy na neb ohonoch, o gadw'r oed â'r deintydd, ond rhaid i mi gyfaddef dwi'n mwynhau fy ymweliad blynyddol i gael profion ar fy llygaid. Dwi ddim yn gallu llwyr ymlacio yng nghadair y deintydd, ond mae'n bleser cael eistedd yng nghadair yr optegydd.

Mi ges i dipyn o drafferth hefo'r llygaid yn ystod y flwyddyn ddiwetha, ac arna i fy hun roedd y bai. Bûm yn gorweithio braidd. Er mai taith tua deng munud sydd yna o 'Barc-y-Wern i Barc y Faenol' mae hi'n daith sy'n cofnodi bron i bedwar ugain mlynedd o fy oes i, ac my sgrifennais stori y daith hir/fer yna mewn amser byr o tua chwe mis. A dyna fu achos y trafferthion hefo'r llygaid. Do, mi weithiais ddydd a nos er mwyn cwblhau y gwaith cyn y 'dedlein'. Yn ychwanegol at hyn fe ddarllenais ddwsinau o gyfansoddiadau ar gyfer y gwahanol eisteddfodau y bûm yn beirniadu ynddyn nhw. Doedd ryfedd i mi gael trafferth hefo'r llygaid.

Dwi'n sgwennu y llith hwn ar brynghawn Sul braf yn Cala Bona ar Ynys Majorca, ac yn mwynhau y seibiant ar ôl gaeaf hynod o brysur. Mi fydda i yn dod i'r gwesty hwn ddwywaith y flwyddyn ers tua deng mlynedd bellach. Roeddwn i'n edrych ymlaen yn fwy nag arfer eleni, gan fy mod i'n teimlo bod angen 'holides' arna i. Cefais y fraint a'r pleser o ymweld â phump ar hugain o wahanol gymdeithasau yn ystod y flwyddyn, a nifer o eisteddfodau. Bu'r cyfnod dros Wyl Ddewi yn hynod o brysur, ac nid trafferthion hefo'r llygaid oedd yn fy mhoeni erbyn hyn, ond trafferthion hefo'r llais. Erbyn Eisteddfod Bontnewydd prin fod gen i lais o gwbl, a diolch i gyfeillion Eisteddfod Penrhyndeudraeth, fe drefnon nhw i mi gael 'radio-mike', a bu hyn yn gymorth mawr i mi, ac yn sicr i'r gynulleidfa.

Dwi wedi clywed sawl un yn awgrymu mor braf ydi hi ar y beirniad ardd yng nghyfarfod nos yr eisteddfodau lleol - dim ond rhyw bedair cystadleuaeth, tra mae'r beirniad canu druan yn chwysu chwartiau. Beirniadaeth eitha teg. Ond y gwirionedd ydi fy mod i a'm tebyg wedi treulio o leia ugain awr adre yn beirniadu'r cyfansoddiadau llenyddol. Na, mae'r beirniad adrodd yn gweithio'n galed iawn am tua pythefnos cyn diwrnod yr eisteddfod, coeliwch fi

Ond yn ôl at y prawf llygaid a gefais ddiwrnod cyn dod yma. Oeddwn, roeddwn i'n medru darllen y llythrennau hyd at y bedwaredd llinell i lawr yn berffaith. Roedd y cylchoedd a'r

sgwariau yn fwy niwog ambell dro, ond yn berffaith glir wrth i Mrs Parry symud y lensus. Mi lwyddais hefyd i gyfri y sêr a fflachiai yn sydyn ar y sgrin. Do, mi wnes i fwynhau y prawf llygaid eleni eto, ac roeddwn yn falch o glywed Mrs Parry yn datgan bod fy ngolwg yn berffaith a doedd dim angen i mi newid sbectol hyd yn oed.

A dyna pam rydw i'n medru ymlacio yma yn Cala Bona, yn yr haul yn sŵn y môr, ac yn medru darllen heb unrhyw straen ar fy llygaid.

Ond anghofiais yr haul y prynhawn 'ma. Dwi newydd fod yn gwylio'r gêm rhwng Caerdydd a Barnsley. Llond ystafell o Saeson swllyd yn rhagweld y byddai eu tîm nhw yn cyrraedd Wembli am yr eildro i wynebu Portsmouth. Brolio roeddwn nhw fod eu tîm eisoes wedi curo Lerpwl yn Anfield, a hefyd wedi trechu tîm y cyfoethogion, Chelsea. Pa obaith oedd gan Gaerdydd? Diodda'n dawel wnes i, ond ar y chwiban ola fedrwn i ddim cuddio fy nheimpladau wrth ddisflannu o'r ystafell gan floeddio 'Cymru Am Byth', ac er mwyn i'r giwed swllyd ddeall, ychwanegais, 'Good Old Wales'.

O ydi, mae fy llais i yn well o lawer. Efallai fod gwin coch yn llesol i lais. Synnwn i ddim. Iechyd da i chi!

UN FUNUD FACH

O AMSTERDAM

Mae nhw yn y BBC; mae nhw yn y pleidiau gwleidyddol; mae nhw ym myd busnes; mae nhw yn colegau. Yn eu meysydd gwahanol mae nhw'n gwneud gwaith da a phwysig. Mae nhw'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r byd ac at y mwynhad a gawn o raglen deledu neu lyfr difyr. Mae'n debyg fod ymchwilydd da yn werth y byd i gwmni neu goleg.

Ond nid oes raid cymryd pob gwaith ymchwil o ddifrif. Fe all yr ymchwilydd gorau wneud camgymeriad. Ac mae'n berffaith amlwg i bawb fod canlyniadau'r ymchwil a wnaed mewn prifysgol yn Amsterdam yn ddiffygiol iawn. Glywsoch chi'r fath nonsens erioed, mai'r plentyn hynaf ym mhob teulu yw'r clyfraf? Waeth pa mor glyfar fo'r ysgolheigion hyn, wna i ddim credu'r hyn a ddywedon nhw. Yn fy marn resymol i, nid yw'r ymchwil werth y papur y cafodd ei gyhoeddi arno. A dylid trin y fath honiadau gyda'r sen y mae ymchwil gwallus yn ei deilyngu. Pa brofion bynnag a wnaeth yr ysgolheigion hyn, a pha ddulliau gwyddonol bynnag a ddefnyddion nhw, fedra i ddim derbyn fod eu casgliadau'n agos at y gwir. Wedi'r cwbl, onid yw pawb sydd ag owns o gomom

sens wedi gwybod erioed mai'r ail blentyn yw'r clyfraf o ddigon?

Roedd yr hyn a glywais o Amsterdam yn fy nghorddi am fy mod, fel sawl un arall, yn cael trafferth i dderbyn tystiolaeth sy'n adlewyrchu'n anffafriol arnaf fi. Rwyf eisiau credu pethau da amdanaf fy hun. Rwy'n gwybod nad wyf yn berffaith, ac yn cydnabod hynny bob tro yr agoraf fe ngheg a'm calon i siarad â Duw. Ond er hyn i gyd, mae yna ryw beth sy'n gwneud i mi fod eisiau credu nad wyf mor ddrwg â hynny wedi'r cwbl. Mae'n iawn i mi gyffesu mai pechadur wyf, ond gwae neb arall i awgrymu hynny! Mi wna i f'amddiffyn fy hun a chyfiawnhau fy hun gyda'r gorau o ddynion. Does dim angen ymchwil mawr ar yr Hollalluog i weld y gwir amdanom. Ond hyd yn oed pan fo'r Duw sy'n gwybod y cyfan amdanaf yn dangos i mi'r pethau drwg a wnaif, mae rhywbeth yn ddwfn o'm mewn sy'n gwneud i mi fynnu dadlau ag yntau.

Ond dadl yw honno na fedra fi na neb arall ei hennill. Does dim ffoi oddi wrth y Duw sy'n ein hargyhoeddi o'n methiannau. Mae'r bys tragwyddol yn pwyntio at ein beiau. Ond yr un pryd, mae'r Duw sy'n dangos i ni ein pechodau yn mynnu dangos hefyd y cariad a'r maddeuant sydd ar ein cyfer yn Iesu Grist. Cawn ein gwahodd i ystyried tystiolaeth gadarn Y Beibl i'r hyn a wnaeth yr Iesu trosom oherwydd ei gariad; ac mae'r dystiolaeth honno'n sicrach a chliriach na holl ymchwil y byd.

JOHN PRITCHARD

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
SKODA	BMW	PEUGEOT	FIAT
 Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			
Ceir Benthg AM DDIM Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk			
Car Service			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Cefnogwch ein Hysbysebwy

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR


- * Cig o ffermydd lleol
- * Partion rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

AROS PRYD

hefo'r 'un garw am ei fol'



Yr Ystafell De

Stryd Fawr, Hen Bentra Mawr Llanbêr, sef Llanberis

Dyma fis o'r bron wedi mynd heibio ac, er gwaetha'r heulwen, yrrrrr oerni, (a'r eira, rhaid peidio ag anghofio hwnnw), mi fues i'n crwydro fel 'dwn i ddim be, ac yn rhyw ddyfal-chwilota am giaffi cynnes o braf. Ond i ble andros yr es i, meddech chi? Ia, i baradwys bwydydd Cymreig, sy' tu hwnt o flasus, ac ar gael yn *Ystafall De Deryl Jones, Llanbêr*. Gŵr agos atoch, un cwbl galon fawr, hefo barn gonast bob amsar, ydy Deryl. Un diddan, yr un fath bob amser, ac mi roedd hi'n fraint cael bod yn ei gwmni ef, a'r staff sy'n gweithio iddo.

Ydy, ydy, mi rydach yn llygad eich lle, fe'i ceir o fora gwyn hyd nos wrthi'n ddiwyd yn ei siop llawn 'trysora', ar y Stryd Fawr. Cyrchfan pobl leol ac o bell, a hynny, os ydy fy nghof yn bur agos ati, ers dros 30 mlynedd, ond does neb yn rhyw siŵr iawn o'i hoedran, (fel 'na'n burion yr ydym ni'r Cymry!).

Dyma siop sy'n gwerthu bob math o bethau, o lyfrau i gylchgronnau, o gelfi i blatiau, a photiau llawn melyster. Ia, mêl o Gymru, ac yma fy mhobol i mae 'na barlwr hufen iâ unigryw, (Oes! wir i chi. Wrth ymyl ceir Ffarm Fêl yr Wyddfa). Ia! *Ystafell De Deryl Jones, Llanbêr*. Dyma le y mae'n werth y byd yn grwn ymweld ag ef.

Mi roedd y fwydlen, coeliwch chi fi, yn werth ei darllen yn uchel, a'r Gymraeg yn amlwg arni. Digonedd o ddewis - cawliau, coffi, te cyffredin a llysieuol, diodydd ysgafn, ysgythaethau - 'rargian! mi roedd yn brofiad amheuthun eistedd wrth fwrdd a chadair sy', fel y dodrefn

eraill yn y caffi, hefo'u lliwiau gwyrdd, coch, a gwyn - lliwiau baner Cymru.

A dyna archebu fy mwyd, a chynorthwy-wraig y siop yn amneidio arnaf, ac yn ailofyn, er mwyn gwneud yn siŵr, (fy mai i, welwch chwi, ydy siarad yn llawar rhy gyflym), a hithau, da 'ngeneth i, yn mynd ati i nodi ar bapur yr holl fanylion yn dra-gofalus, ac yn gwenu'n rhadlon braf arnaf, a pheri imi deimlo fy mod i adref.

A dyna pryd y gwelais i ar y cowntar, o flaen llygaid pawb, gopïau o *Eco'r Wyddfa* ar werth. Da iawn chwi, bobol rhadlon *Yr Ystafall De*!

Penderfynu archebu potyn o de! Ia, yntê! Teimlo wedyn y dreigiau yn rhuo'n isel yn fy 'stumog. Un garw am fy mol ydw i, a rhaid wrth fwyd! A dydy hi eto ddim ond chwarter i ddeuddeg o'r gloch un bore Dydd Gwener! Sgonsan gartra hefo hufen? Sglaffyn o fara brith? Mi fu bron i mi eu harchebu, ond dyna fynd am y cyw iâr, seleri, caws Caerffili, wedi eu taenu ar dost, hefo saws yr Wyddfa yn cadw cwmni iddynt. Ewadd! mi roedd o'n dda. Blas mwy! A saws yr Wyddfa? Am y tro cyntaf yn fy mwyd mi wnes i flasu rhywbeth cwbl wahanol. Unigryw? Oedd myn diaist i! Ewadd! Wedi ei 'neud hefo mêl, a'r gynhygaeth yn greadigaeth Deryl ei hunan. Bendigedig wir! A'r paneidia te! Blasus dros ben!

Da chwi, os am groeso penigamp, a lluniaeth gwerth ei gael, brysiwch draw i *Ystafell De Deryl Jones, Llanbêr*. A chyn mynd adra, beth am brynu llwy garu, neu botyn o Fêl Ffarm yr Wyddfa, neu fwyta corned hufen iâ hefo mêl ynddo?

Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw

GYRDI-WENFFLAM! Y CAR BACH DELA' YN YR HOLL FYD!

Dyma'r stori hyd yma. Ar riw Clegir disgynnodd Gyrddi-Wenfflam oddi ar ben lori Jason Dod-i-Nôl-Ceir-Sy'-Wedi-Malu. Aeth dros ben y clawdd i ganol y coed a disgyn i lawr y llethr i ganol rhedyn go drwchus. Yno, gwelodd dair cwningen. Eu henwau ydy Nicw Nacw sy' ofn bob dim; Twm Cwm Llwm, sy' heb fod ofn dim byd, a Codli Crinci, ac y mae pawb ei ofn o! Y mae Gyrddi-Wenfflam ishio mynd adra, ac y mae'r cwningod yn gwneud eu gorau glas i'w helpu, ond y maent yn gadael Gyrddi-Wenfflam mewn trafferthion. Y mae Gyrddi yn llithro yn tu hwnt o gyflym i lawr y llethr, ac y mae o - ar ben twll mawr heb waelod iddo!

* * *

Y mae Gyrddi-Wenfflam, y car bach dela un yn yr holl fyd, yn llithro'n gyflym i lawr y llethr. Dacw'r twll mawr, heb waelod iddo, yn dod yn nes ac yn nes, ond yn ffodus iawn dyma olwynion blaen Gyrddi-Wenfflam yn taro'n erbyn - ie, ie, gwaelod hen goeden!

Dyma Gyrddi-Wenfflam yn troi ar ei ben i lawr yn yr awyr. Y twll mawr heb waelod iddo fo. Gyrddi! Na! Na!

'Na!' meddai Nicw Nacw'r gwningen fach sy' ofn bob dim, a'i phawennau'n cuddio ei llygaid.

'Na!' ebe Twm Cwm Llwm, y gwningen arall, gan wasgu moryn rhwng ei ddannedd a'i falu'n fân, fân.

'Ta-ta!' meddai Codli Crinci. 'Ta-ta Gyrddi-Wenfflam! Mi roedd yn braf cael dy 'nabod di!'

Ond dyma Nicw Nacw'n tynnu ei phawennau oddi wrth ei llygaid ac yn dweud wrth y ddwy

gwningen arall 'Pawb chwythu!'

'Chwythu?' meddai Twm Cwm Llwm gan ysgwyd ei gynffon bwt.

'Chwythu?' dywedodd Codli-Crinci, a'i gynffon yn ysgwyd fel wn i ddim be.

A dyma Nicw Nacw, y gwningen fach sy' ofn popeth, yn chwythu, a go dda Twm a Codli, mi wnaeth y ddau ohonynt fynd ati i chwythu. Whwwwww! Hwsh! Whwww! Ac, wir i chi, crys a chap gwlanan, tei, menyng a sgarff, dyma Gyrddi-Wenfflam, y car bach dela yn yr holl fyd, yn hedfan drwy'r awyr! Uwchben y cymylau! Dros y twll! Dros Goed Clegir! Dros Ysgol Dolbadarn! Dros y Castell! Dros fodurdy Jason-Lori-Dod-i-Nôl-Ceir-Sy'-Wedi-Malu! Dros llyn Padarn! Dros faes parcio ceir yn y Gilfach Ddu!

Ond, pan wnaeth Nicw Nacw, Twm Cwm Llwm, a Codli-Crinci rhoi'r gorau i chwythu, dyma Gyrddi-Wenfflam yn disgyn! Ia! dyma fo'n disgyn wrth ochor cae draw ar y mynydd - yn Ninorwig! Ac yno, mae o, meddan nhw imi, yn—

Drapia! Mae'n rhaid imi fynd at Nicw Nacw, sy'n crio ar ôl colli Gyrddi-Wenfflam! Paid crio, Nicw Nacw. Gwna rywbeth, Twm Cwm Llwm! Yli, rho dy foryn i Nicw Nacw! A chdi, Codli-Crinci! Paid â sefyll yn fan'na! Yli, rho dy gynffon i Nicw Nacw, er mwyn iddi gael sychu ei dagrau arni.

Ylwch pawb, mi gewch chi, y tro nesa, y stori olaf am Gyrddi-Wenfflam. Tan hynny...

Bi-bib! Gyrrrrrrr! Whim-waham-gyrrr! Whish-hiwiii! Araf deg rŵan, Gyrddi! Dydy'r plant ddim wedi clywed dy holl hanes di hyd yma!



Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chymychiolydd penodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrddig.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Crynodeb o gofnodion cyfarfod mis Mawrth a gynhaliwyd yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Cyflwynwyd adroddiad ariannol cyfredol a diolchwyd i Goronwy Hughes am ei waith. Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Croesawodd Eryl Roberts bawb i'r cyfarfod gan mai hi oedd yn cadeirio yn absenoldeb Dafydd Thomas. Rhoddwyd croeso arbennig i'r Cyngorydd Sir, Charles Jones, i'r cyfarfod i drafod y cynllun i greu ffordd i osgoi Sgwâr Llanrug. Cyflwynodd y Cyngorydd Sir y cynllun ac eglurodd yr adborth yr oedd ef wedi ei dderbyn hyd yn hyn am y cynllun oddi wrth drigolion y pentref. Dilynodd nifer o gwestiynau gan y Cyngorwyr, yn bennaf am y gylchfan ar y cynllun a'r gobaith y byddai'r gylchfan yn arafu'r traffig ar y briffordd. Yn dilyn hyn penderfynodd y Cyngorwyr yn unfrydol i beidio â gwrthwynebu'r cais cynllunio.

Eglurwyd fod y gwaith o dacluso'r eiddew ar wal y fynwent wedi cychwyn ac y dylid gweld gwahaniaeth yn y dyfodol agos. Dywedodd y clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad gan yr Adran Briffyrdod fod yr eiddew yn tyfu i'r lôn yn Tyddyn Elan ac ar hyd Ffordd Minffordd wedi eu pasio ymlaen i'r Adran Gorfodaeth, ac y dylai'r gwaith gael ei wneud yn y dyfodol agos, a bod cynlluniau gan yr Adran i wneud yr un peth gyda'r eiddew ar y ffordd i gyfeiriad Ceunant ger ochr Glyntwrog.

Cafwyd cadarnhad bod y plac i goffâu trychineb Cwm y Glo am gael ei osod yn ystod mis Mawrth neu ddechrau mis Ebrill.

Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu y ceisiadau canlynol: Adeiladu Sied Amaethyddol a chreu trac mynediad: Hafod y Perthi, Pontrug;

Estyniad ar ochr yr eiddo: Bryn Elert, Ffordd Minffordd Llanrug; Estyniad deulawr ar ochr yr adeilad ac estyniad unllawr ar gefn yr eiddo: Llyfni, 22 Nant y Glyn, Llanrug;

Codi modurdy unllawr, Voelas, Cwm y Glo;

Newid defnydd, estyniad cefn a mân newidiadau er mwyn creu ystafelloedd cyfarfod ar y llawr gwaelod a phump ystafell wely ar y llawr cyntaf: Gwesty Seiont Manor;

Estyniad unllawr ar flaen yr eiddo: Ysburor Fawr, Tyddyn Cae, Pontrug
Creu rhodfa gorchwyddiedig, Seiont Nurseries.

Ceisiadau newydd canlynol gerbron y Cyngor Cymuned:

Dim gwrthwynebiad

i adeiladu ffordd gysylltiol rhwng ffordd y stesion a'r A4086 a chreu maes parcio: Cae'r Eglwys, Llanrug; Newidiadau mewnol a mân newidiadau allanol i adeilad a ganiatawyd eisoes: Elaine's

Llwyfor, Ffordd yr Orsaf; Estyniad deulawr ac ystafell haul unllawr ar gefn yr eiddo: Goleufryn, New Street, Cwm y Glo.

Gwrthwynebiad

Trosi aeilad arddangos ceir gwag i 5 uned byw fforddiadwy: Ceir Cwm, Cwm y Glo, ar sail dyluniad a gan fod y Cyngorwyr yn credu nad yw'r adeilad presennol yn addas i'w drosi i adeilad deulawr. Ychwanegwyd nad oedd angen mwy o dai yn y pentref a bod diffyg lleoedd parcio eisoes yn broblem ac y byddai yn gwaethgu gyda'r cais cynllunio hwn.

Hefyd bu i'r Cyngorwyr ddatgan pryder am y cais i adeiladu storfa biniau yn Ysgol Gynradd Llanrug gan fod iard yr ysgol yn lleihau tra mae niferoedd y disgyblion yn cynyddu.

Pasiwyd i gyfrannu'r symiau canlynol o gyllideb 2007/08:

Samariaid: £30; Ambiwllans Awyr Cymru: £100; CRUSE Bereavement Care: £30; Cymdeithas Spina Bifida a Hydrocephalus Gogledd Cymru: £100; Cwmi'r Frân Wen: £30; Cyfeillion Cerdd Ieuenctid Gwynedd: £30; *Walk for Life* (Ymchwil Cancr UK): £100; Sefydliad Coffa Llanrug: £1,800.

Derbyniwyd y cwynion canlynol:

- Fod pobl yn parcio ar y troad i mewn i Nant y Glyn ac felly bod pobl yn gorfod troi yn ôl i'r lôn pan mae ceir yn dod i'w cyfarfod. Y clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdod.
- Y biniau yng nghae chwarae Nant y Glyn ddim yn cel eu gwagio. Goronwy Hughes yn dweud ei fod am gael gair gyda'r prifathro ynglŷn â'r mater.
- Ceir yn parcio'n beryglus ar ochr y lôn y tu allan i ysgol Brynrefail ar ffordd Crawia. Y clerc yn dweud y buasai yn gyrru llythyr i'r ysgol.

Cytunwyd i gael prisiau am dorri glaswellt a llwybrau'r gymuned gan y contractwyr erbyn y cyfarfod nesaf.

Cafwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn cadarnhau fod y coed dros y ffordd i siop sgloodion Tegfan bellach wedi eu torri. Eglurwyd fod y gwaith wedi ei wneud gan Scottish Power a bod y trydan wedi ei roddi i ffwrdd ar fyr rybudd yn ystod hyn gan fod y gwifrau trydan wedi plethu yng nghanhennau'r coed a'i fod wedi cael ei drin fel mater brys iechyd a diogelwch.

Oherwydd newid yng nghlerc y cyngor, nid oes adroddiadau ar gyfarfodydd y cyngor wedi ymddangos yn y papur hwn ers Rhagfyr 2007. Fel y clerc newydd, rwy'n ymddiheuro am hyn ac yn rhoi addewid y bydd adroddiad o hyn allan.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Ysgol Cwm y Glo ar 15 Ebrill 2008.

Cystadleuaeth Calan Mai

*** hefo gwobr anarferol iawn, a'r

gystadleuaeth yn gwbl agored i bob oedran...

Nos Fercher, 26 Mawrth, 2008, bu i dîm pêl-droed cenedlaethol ein gwlad, (dros 21 mlwydd oed), chwarae gêm gyfeillgar yn erbyn tîm arall o gyfandir Ewrop, sef Lwcsombyrg.

(1) Beth ydyw enw llawn rheolwr tîm pêl-droed Cymru?

(2) Ar ddiwedd y gêm bêl-droed rhwng Cymru a Lwcsembwrg nos Fercher, 26 Mawrth, beth ydoedd y sgôr terfynol?

(3) Pwy a sgoriodd y gôl gyntaf i Gymru?

Anfonwch eich atebion ar gerdyn post, nodyn cryno, neu

lythyr, hefo'ch enw a'ch cyfeiriad, at Dafydd Guto, Neuadd Glasgoed, LLANRUG LL55 3BB erbyn dydd Mercher Mai 16eg 2008.

Y wobwr y tro hwn, (i'r cyntaf o'r crochan hefo'r atebion cywir), ydyw rhaglenni gemâu pêl-droed a gynhaliwyd yn y Cae Ras, Wrecsam - *Cymru a Rwsia, Mai 30, 1981; Cymru a Norwy, Chwefror 26, 1985; Cymru a Sbaen, 30 Ebrill 1985; Cymru a Tsiechoslofacia, Ebrill 29, 1987; hefyd Caerdydd yn erbyn Blackburn, Awst 16 1980, a Wrecsam yn erbyn Mansfield, Hydref 20, 1984.*

Dyddiadur EVAN JONES Tŷ'r Mawn

Rwyf am ddechrau y mis hwn yn y flwyddyn 1925.

29 Ionawr, 1925: Claddu Fred Williams, Victoria Terrace, Llanberis.

14 Chwefror: Robert Jones, Llanrug, yn cael damwain anhygoel trwy i lwmp ddod i lawr a'i daro yn ei ben yn Muriau bore Sadwrn.

20 Chwefror: Marw Hugh Williams, Waunfawr.

21 Chwefror: Claddu Jones, Tal Don.

4 Mawrth: Priodi mab John Davies ac hefyd mab i William Roberts. Claddu Evan Gwilym Roberts.

14 Mawrth: Mrs Hughes, Fron Goch, yn cael ei chladdu.

15 Mawrth: Tad John Owen, Saer, yn cael ei gladdu.

16 Mawrth: Marw Charlotte, gwraig Tudur Gas.

9 Ebrill: Marw John Evan Thomas, Peris View, ac hefyd Miss Vaughn Williams yn marw yn Hospital Caernarfon.

10 Ebrill: Claddu gwraig Richard Jones, Stiward.

26 Ebrill: Marw Thomas Roberts, Cae'r Frân.

8 Mehefin: Priodi John Thomas, Bryn Eglwys.

25 Mehefin: Claddu gwraig Michael Jones, Bethesda Street, ac hefyd yr un diwrnod claddu Richard Roberts, Bryn Coch.

10 Gorffennaf: Claddu Thomas Parry, Mona.

17 Tachwedd: Marw Ann Closs yn sydyn, cael ei tharo'n wael mewn concert yn Capel Coch.

23 Rhagfyr: Cael Richard Jones, Pella Dwr, wedi boddi yn Afon Ceunant Mawr.

R. ELWYN GRIFFITH.

Iseldiroedd

Wedi delio â'r marwolaethau
Ar y pryd heb sgil effeithiau,
Daeth un nos pan gefais ddychryn,
Gweld corff fy mab yn lle'r
dieithryn.

Collais yno nerth fy ysbryd,
Dan don fawr ddu collais fy iechyd.
Y diferyn olaf a drodd o'r llestr
Y byd a giliodd drwy hollt ffenestr.

Wedi colli uchelder f'ysbryd
Bu newid mawr i sylfaen bywyd.
Tristwch oedd yn gysgod prysur
Ond gan fy nghariad ni chawn gysur.

'Ei thy' a hawliai ei bryd a'i chwant
Yn bwysicach o lawer na thad ei
phlant.
'Rhaid gosod llawr a wedyn peintio
Paid gadael i'r plant dy weld yn crio.'

Collais yno sail fy nghariad
A dagrau hallt a losg fy llygaid.
Meddyliaf heno, fel gwlych fy
ngrudd,
Bwrpas disgwyl bore ddydd.

Dihangaf eto i fynwent Bryn Llan
At fedd hen ffrind sydd dal yn
ugain.
Drwy'r salwch nawr rwyf mor
anhapus
Dweud wrth John mai fo sy'n lwcs.

Fel deilen grin ar wyneb nant
Llifai f'ysbryd i lawr i'r pant.
Ym mhant y dŵr ni fydd i'm hedd
Tan fo mi'n gorwedd yn fy medd.

Ond cyn llwyr orchudd cysgod
angau
Daeth angel fach i ddal y golau,
Goleuodd hi y llwybr du
A gyda'i gŵen achubodd fi.

Mae'r ffenest nawr yn dechrau agor,
Rhy hwyr i achub priodas rhagor.
Ni all hi newid ei byd a'i bwriad
A rhoi ei gŵr o flaen adeilad.

Mae'r siwrnai'n hir, yn bron
ddiderfyn,
Drwy dywydd mawr, draws llawer
dyffryn.
Hyd lwybr cudd sy'n dringo'r
mynydd
Cam wrth gam tuag at hapusrwydd.
HEDD DWRCH

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED.

Myfyrwyr. Croesawyd dau fyfyrwr o Brifysgol Bangor i'r ysgol am gyfnod, sef Miss Elin Jones i ddosbarth y Babanod, a Mr Jonathan Jones i ddosbarth Blwyddyn 5 a 6, gan obeithio y byddant yn mwynhau'r profiad.

Gwersi Tennis. Mae'r plant wedi dechrau derbyn gwersi tenis yn y Ganolfan Tennis yng Nghaernarfon bob bore dydd lau. Yn ogystal daeth dau hyfforddwr o'r Ganolfan i'r ysgol fore dydd Gwener, 1 Ebrill, i roi blas ar wersi tenis i blant yr ysgol gyfan.

Cwrs Beicio. Cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 gyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant beicio yn yr ysgol o ddydd Mawrth, 15 Ebrill, hyd at ddydd Gwener, 18 Ebrill.

Cwmni'r Frân Wen. Croesawyd y Cwmni i'r ysgol fore dydd Mercher, 23 Ebrill, gyda'r prosiect 'Y Crwbau Mwy' yn y Byd' gan Angharad Tomos. Ymunodd plant o Ysgol Cwm y Glo â ni hefyd yn ogystal ag aelodau o Gorff Llywodraethol yr ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau'r perfformiad yn arw, a'r diod oren a'r bisgedi ar y diwedd!

Gwasanaeth Tân. Daeth aelodau o'r Frigâd Dân i'r ysgol fore dydd Llun, 28 Ebrill, i roi sgwrs i'r plant Meithrin, CA1 a BI 3 a 4, er mwyn codi ymwybyddiaeth o beryglon tân.

Llongyfarchiadau i William Lamb o Flwyddyn 5 ar ei wobwr gyntaf, sef tocyn llyfr gwerth £10, ac i Owain Herd o Flwyddyn 3 am ei ail wobwr o £5, am fod yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth Arlunio yn ddiweddar. Yn ogystal derbyniodd yr ysgol docynnau llyfrau gwerth £50.

Ymgyrch 'Fones 4 Schools'. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cefnogi'r ymgyrch yma sydd wedi sicrhau ein bod wedi casglu digon o ffonau symudol fel bod yr ysgol yn derbyn £300. Rydym angen casglu rhyw 60 o ffonau eraill er mwyn codi'r swm yma i £600.

Buasem yn hynod ddiolchgar i unrhyw un sydd gyda ffôn symudol nad ydych ei angen bellach, pe baech yn ei anfon yma i'r ysgol cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda. Diolch o galon.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i aelodau o Gyfeillion yr Ysgol am eu gwaith caled yn trefnu'r ymgyrch.

Cydymdeimlwn fel ysgol gyda Mrs Carol Jones a'r teulu yn ystod ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei thad, Mr Winsor Williams o Ddeiniolen.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â Miss Catrin Fychan Thomas a'r teulu yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei mamgu yn y de.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Mawrth oedd Mrs Rennie Morris, 2 Llys y Gwynt. (Rhif 39). Llongyfarchiadau.

RAFFL Y PASG. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Gwnaed elw o £129 i Gronfa Pensiynwyr Penisarwaun. Dyma'r enillwyr Iwcus:

£20: Mrs Dilys Williams; £10: Mrs Margaret Williams; *Hamper:* Tania

Lyn a Mrs Beryl Roberts; *Basged o Wyau Pasg:* Jamie Orrock a Maureen Hanks; *Potel o Sieri:* Heddwen Hughes; *Tegan Meddal:* Veg Van; *Bocs Aromatherapi:* Mrs Betty Roberts; *Lamp ganhwylau:* Dylan, Llys y Gwynt; *Bag Llaw:* Mrs Ann Ifans; *Menyng Popty:* Christine; *Persawr:* Mrs Nannie Evans; *Clustog a Channwyll:* Miss Nancy Williams; *Daliwr potel win:* Wendy Bara.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, ar ddod yn Hen Nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Joshua Daniel, i'w hwyres, Emma.

Yn yr un modd, ein llongyfarchiadau i Mrs Blodwen Mowll, 19 Bryn Tirion. Ganwyd mab bach, Aron, i'w hwyres hithau, sef Claire yn Cumbria.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Nel Williams, 2 Bryn Tirion, ar gyrraedd yr oedran teg o 95 mlwydd oed yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Williams ddiolch i bawb am y cardiau, blodau ac anrhegion a gafodd ar yr achlysur arbennig hwn.

Ar 11 Mai, bydd Mari Deiniol, 12 Bryn Eglwys, yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Dymunir pob bendith i ti, Mari, a phob llwyddiant i'r dyfodol.

Deallir fod Mr Selwyn Griffith yntau yn dathlu pen-blwydd arbennig y mis hwn hefyd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da.

GWELLHAD. Bu Mawrth ac Ebrill yn fisoedd o waeledd i nifer yn y pentref. Dymunir gwellhad buan i bawb ohonoch. Mae'n braf gweld Jean Roberts, Treflys, yn cerdded yn rhwyddach wedi triniaeth i'w throed yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

EIN CYDYMDEIMLAD llwyraf â Bronwen a'r teulu yn eu profedigaeth annisgwyl o golli ei thad, taid cariadus Rhys ac Osian.

PWYLLGOR Y NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr oedd: Gethin Green, Tan-y-coed; Margaret Williams, Carrog; Mrs E.J. Williams, 2 Bryn Tirion.

Cynhelir **Miri Mai** ar nos Wener, 9 Mai am 6.30 yn y Neuadd Gymuned ac ar iard yr ysgol. Bydd amrywiol stondinau, raffl a gemau. Rhywbeth at ddant pawb. Dowch i ymuno yn yr hwyl!

11 Gorffennaf. Gobeithir trefnu Ras Peli, pryd y gellir prynu rhif pêl am £1 a bydd gwobr deilwng i'r enillydd.

17 Rhagfyr. Cynhelir Noson Wasael ac Ocsiwn Addewidion. Gobeithio y cawn yr un ymateb â llynedd i'r Noson Wasael llwyddiannus ac y cawn addewidion hael gan gareidgion y fro.

YSGOL SUL BOSRA. Y mae cyfnod y Cymanfaoedd wedi cyrraedd. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Deiniolen a Chwm y Glo yn Festri Capel Ebeneser, Deiniolen, ar bawn Sul, 18 Mai am 2.00 o'r gloch. Gwneir casgliad at y Gymanfa.

Trefnir bws i gychwyn o Lanberis am 1.15; Cwm-y-Glo am

1.25 a Phenisarwaun am 1.30. Pris £1 i oedolion. Taer erfynir am eich presenoldeb.

Arweinydd y Gân fydd Gareth Jones, Llanberis.

APÊL CAPEL BOSRA. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y Noson Bingo. Bu'n noson hwyliog a chyfeillgar. Diolch o galon.

CYNGERDD. Nos lau, 17 Ebrill, cafwyd noson arbennig o lwyddiannus yng nghwmni Côr y Waun, Waunfawr, dan arweiniad medrus Gwenda Griffith a'r gyfeilyddes ddawnus, Ann Pritchard. Mwynhawyd gwranddo ar y caneuon traddodiadol a gwladgarol, ynghyd â lleisiau swynol yr unawdwyr, Ffion a Rhiannon, a chyfansoddiad Rhiannon o'i chân serch hudolus a'i datganiad o'i chyfansoddiad ei hun ar y piano.

Diolch hefyd i blant yr Ysgol am fod yn barod i gymryd rhan a rhoi i ni foddhad o wrando arnynt, fel cyd-adrodd, yn cyflwyno'r gerdd 'Cwic Fics'.

Terfynwyd y cyngerdd gyda cherdd Waldo i'r Tangnefeddwyr a Hafan Gobaith.

Diolchodd Pat Larsen i'r Côr am roi cymaint o bleser a mwyniant i'r gynulleidfa, gan ddymuno pob llwyddiant iddynt hefo'u cyngerdd mawr yn Galeri ym mis Hydref. Diolchwyd i bawb fu'n gwneud y trefniadau, i bawb a ddaeth i gefnogi'r Apêl ac i'r pwyllgor am drefnu lluniaeth i'r Côr ar y diwedd. Gwnaed elw sylweddol o £400 - diolch o galon i bawb.

ARHOLIADAU. Pob dymuniad da i bawb ohonoch fydd yn sefyll yr amrywiol arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf.

EGLWYS SANTES HELEN

Ficer Newydd. Rydym yn falch o

gyhoeddi fod y ficer newydd wedi cyrraedd y plwyf. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys St Mair, Y Felinheli nos lau, 10 Ebrill, i sefydlu y Parch Lloyd Jones. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Gwir Barchedig Anthony Crockett, Esgob Bangor. Roedd tyfra dda wedi dod ynghyd a chymerodd nifer o'r aelodau ran yn y gwasanaeth. Cariwyd y Groes Orymdeithiol gan Katie Lewis. I ddilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys.

Mae Mr Jones yn hanu o Lanilltud Fawr. Croesawn ef a'i wraig, Casie, a'i feibion, Dafydd a Tomos, sydd bellach wedi ymgartrefu yn y Ficerdy yn y Felinheli. Edrychwn ymlaen yn hyderus at gyfnod ei weinidogaeth yn ein plith.

Carnifal a Gweithgareddau.

Disco. Fe gynhaliwyd Disco yn Neuadd yr Eglwys nos lau, 24 Ebrill i ddewis brenhines y Carnifal. Dyma'r manylion:

Brenhines: Elin Owen; **Morwynion:** Georgia Parkinson ac Elin Thomas; **Tywysog:** Siôn Jarvis. Yn ystod y noson fe gafwyd cystadleuaeth y Dawnsywyr gorau a Sophie a Jordan oedd y buddugwyr.

Trefniadau y Carnifal.

Nos Lun, 30 Mehefin: Bingo **Mawrth, 1 Gorff 1:** Gyrfa Chwist **Mercher, 2 Gorff:** Mabolgampau **lau, 3 Gorff:** Disco

Gwener, 4 Gorff: Helfa Drysor

Sadwrn, 5 Gorff: Carnifal

Sul, 6 Gorff: Cymanfa Ganu

Fe fydd manylion llawn yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos.

Noson Goffi. Fe gynhelir Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys nos lau, 22 Mai am 6.30 o'r gloch.



Cwrs Beicio Ysgol Penisarwaun.



William Lamb ac Owain Herd.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MARWOLAETH. Yn sydyn ond yn dawel ar Sul y Pasg, 23 Mawrth, yn Ysbyty Gwynedd, fe gollwyd un o frodyr y filltir sgwâr, sef Raymond Lloyd Jones, neu Raymond Glasdy, fel roedd pawb yn ei adnabod. Mab i Mrs E. Lloyd Jones (Bet Lyndale) a'r diweddar Mr Robert Jones. Roedd yn ŵr, tad, taid, brawd, nai i Mrs Laura Owen, ewythr, cefnder, llysdad a llysdaid annwyl iawn.

Dechreuodd Raymond weithio, yn ifanc iawn, yn chwarel lechi Llanberis. Aeth wedyn i weithio i Peblig Caernarfon, R&I Jones, Crosville Cymru, Bws Gwynedd ac Adran Drafnidiaeth Ynys Môn, lle y daeth i adnabod llawer a gwneud nifer fawr o ffrindiau da.

Roedd Raymond hefyd yn cael ei adnabod fel Bandiwr Pres, wedi bod, ers ei blentyndod, yn aelod ffyddlon o fand pres Llanrug. Mi fu'n chwythu corn i fand pres Trefor a hefyd Seindorf Arian Deiniolen, lle'r oedd yn mwynhau ei hun ac yn hapus iawn. Yn ddiweddar iawn penderfynodd Raymond roi ei gorn i fyny a rhoi cyfle i rai ifanc o'r band gael y cyfle i chwythu yn y band mawr, ond roedd yn dal i gymryd diddordeb mawr drwy fod yn aelod o'r pwyllgor.

Rhoddwyd ef i orffwys, ar ôl gwasaneth gan y Parchedig Robert Townsend, ym mynwent Eglwys St Mihangel, Llanrug. Bydd colled enfawr ar ei ôl gan ei deulu a'i ffrindiau oll.

DIOLCH. Dymuna Joyce, Colin a Peter ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a holl bobl yr ardal am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbynwyd dros gyfnod anodd iawn. Diolch yn arbennig iawn am yr holl gardiau a'r galwadau ffôn hefyd pan oedd Raymond yn yr ysbyty a'r cyfraniadau hael iawn er cof am un mor annwyl i bawb.

Diolch hefyd i staff Wardiau Tryfan, Glaslyn ac Alaw, Ysbyty Gwynedd; Meddygon a staff Meddygfa Llanrug a Waunfawr; Y Parchedig Robert Townsend am y gwasanaeth angladdol; Mr W. Munro, yr organydd; Mr Meirion Jones am y deyrnged, a hefyd Mr Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaun, am y trefniadau urddasol a thrylwyr. Diolch i bawb **DIOLCH.** Dymuna Ruth, Catrin, Miriam, Gwyn a theulu y ddiweddar Moreen Lennon, Plas Tirion, ddiolch i'r ardal am y caredigrwydd a'r parch a ddangoswyd tuag atynt a thuag at Fam a Nain annwyl ac unigryw iawn. Diolch hefyd i bawb a anfonodd gardiau ac anrhegion i Mam tra bu yn yr ysbyty.

Hoffai Ruth a Catrin gymryd y cyfle i ddiolch i'w holl ffrindiau am eu cefnogaeth a'u cynhaliadau ddiflino yn dilyn marwolaeth eu Tad, ac yn ystod salwch eu Mam. Diolch yn arbennig i Ann am ofalu a sicrhau bod bywyd Miriam fach yn mynd yn ei flaen fel arfer. Mae'n gysur mawr gwybod bod

galon.

DIOLCHIADAU. Yn dilyn marwolaeth Bleddyn Roberts yn Arddleen (gynt o Lanberis), priod addfwyn Heddwyn (Cwm-y-glo gynt), tad arbennig Trystan a Sion a thaid hoffus, fe ddymuna'r teulu, yn cynnwys ei chwaer, Prydwen a'i frawd Goronwy, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem.

Dyma englyn a wnaeth Dafydd John Pritchard ar gyfer y Cyfarfod Coffa yn y Trallwng dydd Sul, 13 Ebrill.

Bledd, yr addfwynaf ei lafar, a'i ddweud

Yn ddweud diymhongar;
Carodd yntau'r geiriau gwâr,
ac o'i ôl mwy yw'n galar.

PROFEDIGAETH. Yn ystod y mis bu farw sawl person yn y pentref ac estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at eu teuluoedd:

Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf, yn 103 mlwydd oed;

Mrs Amy Smith, Llechwedd, Tai Rhythallt, yn 93 mlwydd oed;

Mr Raymond Jones, Bryn Fedwen, Ffordd yr Orsaf, yn 70 mlwydd oed;

Mrs Thomas, Tŷ'r Heddlu, Ffordd Llanberis.


Bydd colled enfawr i'r teuluoedd, eu ffrindiau a'r pentref.

DIOLCHIADAU. Dymuna Rachel a John a theulu'r ddiweddar Mrs Sarah Ellen Thomas (Sally), Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli Mam annwyl a modryb ffyddlon, ar y cyntaf o Ebrill. Diolch hefyd am yr ymweliadau, y cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael a dderbyniwyd er cof, tuag at Feddygfa Llanberis. Gwerthfawrogn yn fawr y caredigrwydd a'r haelioni a ddangoswyd gan drigolion yr ardal.

DYMUNA Mrs Mair Jones, Glanmoelyn, ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddi tra bu yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri. Hefyd, yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd. Dymuna ddiolch yn arbennig i Ronnie Williams, Hywel Morris, Beryl Griffiths, Alun Williams a Kevin am ei helpu pan gafodd y ddamwain.

DIOLCH PEN-BLWYDD. Fe ddymuna Mrs Megan Jones, Peris, 56 Glanffynnon, ddiolch yn fawr am y rhoddion gan Cled a'r plant, y teulu a ffrindiau hefyd. Yr holl flodau bendigedig, anrhegion a siocledi! a'r lluniau cardiau gan hen ffrindiau, pell ac agos, a chymdogion da. Unwaith eto, diolch o galon i bawb wnaeth ddiwrnod eiphen-blwydd yn un arbennig.

COFION GORAU. Mae sawl person unai yn yr ysbyty neu ddim yn dda gartref. Cofiwch atoch i gyd



Enillwyr y Dawnsio Parau a'r Ddawns Unigol.

CLWB IEUENCTID. Lisa Williams a Debbie Williams o Glwb Ieuenctid Llanrug a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth dawns parau, a Sasha Williams a fu'n fuddugol yn y ddawns unigol ym Mhorthmadog. Byddant yn cynrychioli eu clwb yn y gystadleuaeth Genedlaethol yn y Drenewydd. Bu Ariann (nad yw yn y llun) yn fuddugol mewn dawns unigol a bydd hithau'n ymuno â'i chyfeillion yn y Genedlaethol. Pob lwc iddynt i gyd a Hwre! i Glwb Ieuenctid Llanrug – da iawn chi genod. Yr hogia nesa?

YR YSGOL FEITHRIN.

Thema y tymor yma ydy Anifeiliaid ac mae'r plant wedi bod yn brysur yn dod â lluniau o'u hanifeiliaid anwes i'r ysgol. Daeth 'Stwmpyn', y bochdew, a chafodd y plant i gyd gyfle i roi mwythia iddo.

Codi Arian. Hoffai'r Ysgol Feithrin ddiolch i Wendy, Penbont, a'r criw am godi arian drwy rafflo Wy Pasg Siocled enfawr. Codwyd £140.00 tuag at yr Ysgol Feithrin. Yn ogystal hoffwn ddiolch i Richard Lewis o Lanrug am ei rodd o £20.00. Yr ennillydd oedd Alan V. Owen.

Ar Fai y 11eg bydd plant o'r Ysgol Feithrin yn gwneud taith gerdded nodedig gyda'u tedi, o'r Groeslon i Inigo Jones ac yn ôl. Byddwn yn cynnal Ffair Haf a Sêl Cist Car ar fuarth yr Ysgol ddiwedd mis Mehefin, gan obeithio y bydd hyn yn rhoi digon o gyfle i chi gasglu dipyn o bethau! Diolch i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Ymuno â'r Ysgol Feithrin

Ydi eich plentyn yn ddwy a hanner cyn Mawrth 2009? Mae'n bosibl iddo gychwyn yn yr Ysgol Feithrin

o Fis Medi 2008. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mrs Gwen Edwards ar 674020.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Doug ac Avril Jones, 14 Minffordd, a'r teulu yn dilyn marwolaeth mam Doug yng Nghartref y Foelas.

Y SEFYDLIAD COFFA.

Enillwyr y Clwb am fis Ebrill oedd: £20: Mrs M. Williams, 35 Nant y Glyn; £7: Mrs D. Jones, 2 Talybont; £5: Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan.

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Bethan a Mike Houghton, Penygroes, ar enedigaeth Jac Wynne, brawd bach i Katie ac Anna ac ŵyr i Selwyn a Beti Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 8 Ebrill, am 7.30 yn y Sefydliad Coffa, cychwynwyd gyda Chân y Mudiad ac estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Megan Roberts.

Llongyfarchwyd Margaret Parry ar ddod yn nain am yr eildro, ganwyd mab bychan, Guto, i Jên a Gethin, brawd bach i Beca. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Mrs Whiteside Thomas, ein Llywydd Anrhyddedus, ar golli ei chwaer, Amy. Cydymdeimlwyd hefyd â Jean, Penisarwaun, ar golli Raymond, ei brawd-yingnghyfraith. Diolchwyd i Mair Huws am gasglu £80 drwy Ddistawrwydd Nodedig, ac anfonir ein cofion anwylaf at Beryl Thomas, un a fu'n weithgar iawn gyda Phwyllgor yr Anabl am flynyddoedd maith.

Y wraig wadd oedd Bethan Wyn Jones, Talwrn, colofnydd i'r *Herald Cymraeg* a llais cyfarwydd



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**

(01286) 678618 (dydd)



ar Radio Cymru. Blodau Gwyllt Cymru oedd ganddi dan sylw a rhyfeddwyd at y stôr o wybodaeth a drosglwyddodd i ni o fewn orig hynod ddifyr.

Cychwynnodd drwy olrhain hanes paill o wyth blodyn a ddarganfuwyd 60 mil o flynydoedd yn ôl mewn bedd yn Irac. Roedd y blodau, yn ôl pob sôn, wedi eu gadael yn y bedd i bwrpas mewn byd a ddaw. Defnyddir blodau o hyd fel meddyginiaeth yn Irac.

Yn 1,700CC defnyddiai'r Eifftiaid arleg fel meddyginiaeth a gŵyr pawb am y siop fferylllydd gyntaf gan Feddygon Myddfai.

Defnyddir 'Milddail' hyd heddiw at ddiffyg traul a chylchrediad y gwaed, a'r gwraidd ar gyfer y ddannodd a chrudcymalau. Roedd 'Chwerwyls yr Eithin' yntau yn donic at grudcymalau.

Os oes angen gwaredu dŵr o'r corff arnoch, neu reoli curiad y galon, gwnewch donig o 'Fysedd y Cŵn'. Erstalwm defnyddid 'Mantell Mair' i gadw chwain o'r gwely!

Mae nodweddion arbennig i'r 'Hen Ŵr', byddai pobl yn gwneud eli hefo lard at ddolur croen a chael gwared o lyngir edau! Wrth gwrs, roedd gan bawb bron sbrigyn o'r 'Wermud Lwyd' yn yr ardd i gael gwared o'r lynchgyren gron, a'r 'Wermud Wen' at gur pen ac i ymlacio'r cyhyrau.

Os byth y cewch frathiad gan gi cynddeiriog yma cymerwch ddeilen o'r 'Rhosyn Gwyllt' a'i rhoi yn syth ar y briw. Mae ffrwythau'r Rhosyn Gwyllt, sef yr 'Egroes', yn llawn fitamin C ac yn fendithiol at annwyl a pheswch.

Y mae'r 'Had Llin' – *linseed* yn ardderchog at dynnu metalau trwm o'r corff ac yn gymorth i atal thrombosis. Mae sawl rhinwedd i'r 'Danadl Poethion' – mae'n llawn haearn a gall glirio penddynnod, pigladau, pryfetach, cen ar y pen, pigyn clust, eryr, llyngir, cynn ar y traed ac, yn wir i chi, byddai dynion yn rhoi danadl poethion yn eu sannau i atal cenhedlu! (erstalwm!!)

Fe gofir am flas erchyll yr 'Asiffeta' a roddid at yr ewinedd rhag iddynt gael eu cnoi. Gallai gynhesu'r corff rhag oerfel hefyd. Arferai pobl erstalwm wneud eli neu bwltris hefo 'Cwmffri' at grudcymalau ac i asio esgyrn.

Os oes dafad gennych ar y croen neu gymr ar y traed, ewch i chwilio am y 'Ddeilen Gron'. Mae'n dda at yr eryr hefyd ac ecsima. Defnyddir yr 'Erwain' o hyd i wneud tabledi aspirin.

Anhwylder ar y llygaid – yna 'Llysiau'r Wennol' amdani! Mae'r sudd oren yn y coesyn yn dda at ddolur y llygad ac i dynnu cateract.

Oes, mae angen llygad llymach i weld gwerth yn y chwyn o'n cwnpas ac i werthfawrogi

Y llysiau gwythiol berchid
Am eu lles yn fwy na'u llun.

Diolchwyd i Bethan Wyn Jones gan y Llywydd. Gellid bod wedi gwrandio arni am awr arall. Gwerthfawrogydd ei sgwrs hynod o ddifyr a diolchir iddi am ei chyfraniad wythnosol arbennig o ddiddorol yn yr *Herald*. Enillydd y raffl oedd Menna.

10 Mai: cynhelir 'Mwyniant Mai' am 9.30 yn Ysgol Friars Bangor. Dyma arlwy y pum rhanbarth ac eleni cawn ein swyno gan ieuencid y fro.

Nos Fawrth, 13 Mai: byddwn yn ymweld â Chae'r Gors. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 5.45 ac yna yn Llanrug am 5.50.

10 Mehefin: cynhelir Cyfarfod Blyneddol ac yna sgwrs a chaws a gwin neu banded.

YR YSGOL GYNRADD. *Myfyrwyr.* Rydym yn croesawu dwy fyfyrwraig o Goleg Prifysgol Bangor, sef Nia i blwyddyn 1, a Debbie i flwyddyn 3. Mi fyddant efo ni am bump wythnos.

Cynllun Hyfforddi Tennis Bl. 1 a 2. Mae hyfforddwyr Canolfan Tennis Caernarfon yn dod i'r ysgol i ddechrau cynllun hyfforddi gyda disgyblion blwyddyn 1 a 2 bob dydd lau am 5 wythnos.

Cynllun Hyfforddi Sgiliau Beic Lefel 1, 2 a 3. Mae'r cynulliad wedi ariannu'r cynllun yma ar gyfer disgyblion blwyddyn 6. Cynhelir lefel 1 a 2 ar fuarth yr ysgol ond cynhelir lefel 3 yn Ysgol Brynrefail.

Twrnament Urdd Gobaith Cymru 2008 Eryri. Cynhaliwyd y twrnament ym Mhorthmadog. Da iawn chi, ferched, am ennill y

twrnament a phob lwc i chi yn y twrnament cenedlaethol ym mis Mai.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Amy Whiteside Smith, Llechwedd, Tai Rhythallt, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu colled. Dymunant ddiolch yn ddiffuant i staff Meddygfa Llanberis a staff Ward Padarn, Ysbyty Eryri, am bob gofal. Diolch arbennig i Gwynfor Jones o gwmni E. W. Pritchard am ei holl drefniadau trylwyr. Derbyniwyd dros £600 mewn rhoddion, ac yn ôl dymuniad Mrs Smith, fe'i trosglwyddwyd i elusen Plant Mewn Angen.

DIOLCH. Dymuna Mrs Bet Lloyd Jones, Lyndale, a'r teulu, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad o golli mab annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion a'r cardiau.

YR YSGOL GYNRADD.

Yn ystod gwyliau'r Pasg, i lawr yn Sir Benfro, priodwyd Miss Eleri Jenkins a Steven Edwards. Llonyfarchiadau mawr i'r ddau a dymunwn briodas hapus iddynt.

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyth

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiâu Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvoniaco.uk
Gwefan: www.arvoniaco.uk

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG
677362

neu symudol
07979
620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Gŵyl Ffidil yr Wyddfa 14 Mehefin

Croeso cynnes i bumed flwyddyn Gŵyl Ffidil yr Wyddfa. Diwrnod cyfan o chwarae, gwrandio, adloniant a mwynhad. Dyma gyfle i glywed a dysgu gan rai o brif ffidlwyr Cymru a thu hwnt ac i ymlacio yn hwyl a naws cartrefol yr ŵyl.

Mae'r dathlu'n cychwyn nos Wener gyda noson lawen agored yn ystafell gefn y Vaynol Arms. Yn ystod y dydd Sadwrn mae gweithdai ffidil ac offerynnau eraill, gan gynnwys siawns i drïo'r crwth (hen offeryn Cymreig), yn ogystal â chloccio. I'r plantos mae 'na sioe bypedau a gweithdy cerddorol i blant dan 5 oed (mae popeth am ddim i'r rhai o dan 16 oed).

Yn dilyn yr hwyl gawsom ni llynedd, bydd cyngerdd meic-agored yn y dafarn eto amser cinio, i'w ddilyn gan sesiwn agored drwy'r prynhawn. Croeso i bawb ymuno.

Lleolir y cyngerdd gyda'r nos yn Eglwys Sant Peris, gyda sesiwn eto wedyn!

Eleni cawn gerddoriaeth i godi calon gan Roots a Galoots, band o dde-orllewin Cymru sy'n chwarae cerddoriaeth Bluegrass fywiog a chaneuon mewn harmoni. Cawn gyfle i glywed Stephen Rees, sydd yn un o ffidlwyr mwyaf adnabyddus Cymru, ac yn aelod o Crasdant ac Ar Log.

Hefyd, ac yn draddodiadol bellach, bydd set byr gan y trefnwyr: Cass Meurig, Idris Morris Jones a Nial Cain (neu Ty'n Llan Ali) a chyfraniad gan aelodau Clwb Ffidil yr Wyddfa. Peidiwch â'i cholli!

Am fwy o wybodaeth

we: www.gwylffidil.info

e-bost: info@gwylffidil.info

ffôn: (01286) 871 042

DRAENOG

Peth Mor Gymysglyd

Un garw am ei smôc ar un amser ydoedd Modryb Gwen, a blyneddodd yn ôl mi ddanfionodd ei nai, nad oedd ond crwt chwe mlwydd oed, er mawr cywilydd iddi, ar neges sydyn i'r Co-op lleol, a'i siarsio i ofyn a thalu hefo ei phres hi yng ngofal Llew bach am biacad o sigarêts y Giath Ddu, chwedl hithau.

'Y?' ebe ei nai.

'Crefen A, hogyn!' meddai ei fodryb wrtho. Ond sôn am drafferth a gafwyd yn y siop pan ofynnodd y crwt bychan am 'Ga'f i – iâr?'


'Bobol bach!' dywedodd Iori Co-op wrtho, 'I pwy ti ishio fo? Wyt ti'n sylweddoli stwff mor ddrud ydy o?'

'Modryb Gwen sy ishio ei smocio fo!' eglurodd y crwtyn, er mawr ddifyrwrch i'r siopwr, a'r rhai oedd yn y siop!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115



Siôn Elwyn Hughes, y Parchedig Marcus Wyn Robinson a Dyfan Coles.

CAPEL Y CYSEGR

Gwasanaeth Sul y Pasg

Ar fore Sul y Pasg cafwyd gwasanaeth arbennig, dan ofal y Gweinidog, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson, pan dderbyniwyd dau o blant yr Eglwys yn gyflawn aelodau. Yr oedd Siôn Elwyn Hughes a Dyfan Coles wedi bod yn mynychu'r Dosbarth Derbyn ar y cyd gyda ieuencid o'r chwaer Eglwys, Capel y Rhos, Llanrug. Cymerodd y ddau ran yn y gwasanaeth drwy ddarllen rhannau pwmpasol o'r Ysgrythur. I gofio'r achlysur, cyflwynwyd copi o *Caneuon Ffydd* a thystysgrif aelodaeth i Siôn a Dyfan gan Ysgrifennydd y Capel, Jenkin Griffiths, a dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol. Yna, yn dilyn, arweiniwyd pawb at Fwrdd y Cymun gan y Gweinidog.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Bedydd Cadi Glain yn ddiweddar, dan ofal y Gweinidog. Merch fach Sarah a Hefin Evans, Tŷ Ffynnon, yw Cadi Glain, a bedyddiwyd hi yng nghwmni plant yr Ysgol Sul a'r gynulleidfa. Braf oedd cael croesawu nifer dda o'i chyfeillion a'i theulu i'r Oedfa.

Yn ddiweddar bu nifer o ferched o amgylch yr aelodau yn casglu arian tuag at waith Bwrdd y Genhadaeth. Cyfanswm y casgliad eleni oedd £228.50 a diolch i bawb am bob cefnogaeth. CLWB BRO BETHEL. Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod y mis yma o'r Clwb. Anfonwyd cofion at ein Llywydd, sef Goronwy Jones, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn Llandudno, ac hefyd i Trefor Williams, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri. Dymunwyd gwellhad buan i'r ddau.

Llongyfarchwyd Nancy ac Alun Williams ar ddathlu Priodas Aur yn ddiweddar. Braf oedd cael adrodd fod y Clwb wedi derbyn rhodd ariannol gan Mr a Mrs Kalsi,

perchnogion Y Bedol, yn dilyn amrywiol weithgareddau yno.

Y gŵr gwadd oedd John Jones, Stad Eryri, Bethel, a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ganddo yn olrhain hanes ei fagwraeth yn Nghwm Abergeirw, ger Trawsfynydd, ei flynyddoedd cynnar yn yr ysgol a'i gyfnod yn y Goedwigaeth a'r Fyddin. Roedd ganddo stôr o hanesion am nifer o'i gyfoedion yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn ddiweddarach ymunodd â'r Heddlu tan ei ymddeoliad a chafwyd hanesion digri a difrifol ganddo o'i brofiadau yno.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Elizabeth Evans. Robin Jones fydd y siaradwr y tro nesaf. LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Enfys Roberts, 37 Bro Eglwys, ar lwyddo yn ddiweddar mewn arholiad piano Gradd 3, gyda theilyngdod. CYMDEITHAS LENYDDOL. Erbyn hyn mae'r gweithgareddau am eleni wedi dod i ben a hynny gyda Swper ym Mwyty Tŷ Mawr, Llanddeiniolen. Braf oedd cael

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

cymdeithasu a swpera ymysg cyfeillion. Anfonwyd cofion at leuan Williams, Llywydd y Gymdeithas ac hefyd at Goronwy Jones, y ddau y nmethu â bod yn bresennol. Diolchwyd i'r Cynghorydd Huw P. Hughes ac i berchnogion Y Bedol am rodd ariannol i'r Gymdeithas.

DIOLCH. Dydd Gwener, 11 Ebrill, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Jane Ellen Elis, Y Ddôl, Bethel, gynt o 8 Glanrafon, Nant Peris. Cynhaliwyd yr angladd yn Y Cyssegr ddydd Iau, 17 Ebrill, gyda'r Parchedigion Marcud Robinson, Aled Davies a Dafydd Ll. Hughes yn gwasanaethu. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris.

Dymuna Geraint ag Anne, Alwyn a Nan a'r teulu ddiolch o galon i deulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a hen Nain annwyl. Diolch i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am y trefniadau.

Er cof am Mrs. Jean Ellis

I Geraint ac Alwyn

I'w gŵr a'i phlant ni chaed gwell
- i'r addfwyn

troed yr Wyddfa'n cymell.

Pridd y Nant fydd ei mantell,
nid yw mam yn mynd ymhell.

MERCHED Y WAWR. Cawsom gyfarfod difyr iawn dan lywyddiaeth Margaret Druce nos Fercher, 9 Ebrill, pan groesawyd

Awen Jones o Erddi Frongoch, Caernarfon, i'n hannerch ar sut i osod basgedi crog a chreu basged ddeniadol gyda pherlysiâu ynghyd â blodau. Roeddem i gyd yn teimlo'n bod yn barod i daclo'r basgedi pan gynhesith y tywydd. Diolchwyd iddi gan y Llywydd.

Roedd llongyfarchiadau'n ddyledus i Delyth Williams a oedd wedi dathlu pen-blwydd arbennig. Hefyd llongyfarchiadau i Mrs Nansi Williams a'i gŵr sydd wedi dathlu Priodas Aur. Da iawn, Dewi, mab Mrs Glenys Griffiths ar ei anrhydedd o fod yn mynd i Neuadd Albert Llundain i chwarae'r corn - pob hwyl iddo.

Anfonwn ein cofion at Philip, mab Margaret Williams, sydd yn aros am driniaeth, a drwg gennym ddeall hefyd fod Siân Davies wedi bod yn dioddef yn ddiweddar yn dilyn triniaeth i'w throed.

Diolch i'r merched am wneud y te. Enillydd y raffl oedd Margaret Williams. Etholwyd Pwylglor ac is-swyddogion ar gyfer 2008/09 fel â ganlyn: Is-Lywydd: Mair Read, yn anffodus methom ag ethol Is-Lywydd nac Is-drysorydd. Y pwylglor fydd Gwyneth Jones, Rita Williams, Nora Parry, Sheila Roberts, Anne Elis, Alys Jones, Mary Evans a Gwyneth Williams. Edrychwn ymlaen at groesawu Richard Lloyd Jones atom y mis nesaf i'n harwain mewn noson o farddoni.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-3 p.m. (Sul)

01286 672333

GWYLIAU SEREN ARIAN

Silver Star

HOLIDAYS

Dathliad Penblwydd
Seren Arian yn 90 oed

Mai 2008 24 - 26 (3 Diwrnod)

Mai 2008 25 - 26 (2 Ddiwrnod)

1 neu 2 noson gwely a brecwast gyda swper gala ac adloniant

4* Hilton Metropole,
Birmingham

Ceir adloniant gan

Tudur Owen y comediwr,

Dafydd Iwan a'i fand,

ac band teyrnged 'Abba'

2 Ddiwrnod £99

3 Diwrnod £149

www.silverstarholidays.com

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

YSGOL BRYNREFAIL

Raffl Pasg 2008

Trefnwyd raffl llwyddiannus iawn gan Gyfeillion Ysgol Brynrefail eleni. Dyma'r enillwyr:

Cyntaf: Noson i ddau yn yr Hilton (Seren Arian): Janice Griffith, Llanrug;

Ail: Main Bicnic (Menter Fachwen): Sally Haycock, Waunfawr;

Trydydd: Cinio i ddau (Gwesty Fictoria, Llanberis): Helen Jones, Brynrefail.

Llongyfarchiadau iddynt a diolch i bawb am eu cefnogaeth. Gwnaethpwyd elw o £1,200 i'r Cyfeillion ar gyfer cefnogi gweithgareddau'r ysgol.

Y gwerthwyr gorau oedd Lauren Fraser, 7S; Glesni Jones, 8O ac Aaron Prydderch, 9E. Gwerthasant werth bron i £80 o docynnau raffl rhyngddynt – da iawn chi wir!

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Tulliner, 8O ac Anna Jones, 7E am eu llwyddiant yn adran y Gwaith Celf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Cafodd Anna gyntaf drwy Gymru am dynnu lluniau du a gwyn ar y thema 'Cyswllt'. Enillodd Tomos ddau gyntaf ac un ail drwy Gymru am gynllunio systemau gemau newydd, am dynnu lluniau ac am gynllunio llun cyfrifiadurol. Cofiwch fynd i edmygu eu gwaith!

Pêl-droed dan 14

Mae llwyddiant y tîm yma'n enwog drwy'r ardal erbyn hyn ac yn destun balchder i ni fel ysgol. Maent yn chwarae yn y rownd derfynol ar Ebrill 20fed yn Y Drenewydd. Pob hwyl iddynt. Bydd eu helyntion yn rhifyn nesaf yr *Eco* ond, fel tamaid i aros pryd, dyma adroddiad arbennig arall gan y capten, Daniel Bell, am gêm y rownd gyn-derfynol:

Chwaraewyd y gêm ar gae cartref Llanrug, Eithion Duon, ar y seithfed o Fawrth. Roedd y cae mewn cyflwr arbennig a diolch i'r clwb am gael defnyddio'r cae.

Dechreuodd y gêm gyda'r ddau dîm yn ysu i fynd ar y blaen. Brynrefail oedd y tîm cyntaf i sgorio gyda Gruffydd John yn rhoi'r tîm cartref ar y blaen. Ond, yn anffodus, rhoddodd y dyfarnwr gic rhydd i'r tîm oddi cartref, sef Mold Alun. Roedd y gwynt yn erbyn Brynrefs yn yr hanner cyntaf. Ar hanner amser roedd y tîm cartref i lawr 0-1 hefo ergyd lwcus gan Mold Alun.

Yn yr ystafell newid roedd hi'n ddistaw iawn ac roedd

pennau'r hogiau'n isel. Ond unwaith y dechreuodd Mr Holland roi 'tîm tôc' i'r hogia roedd ein pennau i fyny ac yn barod am yr ail hanner.

Yn fuan yn yr ail hanner tarodd Jamie McDaid y bêl i'r rhwyd. Roedd Brynrefail yn brwydro am yr ail gôl a daeth honno yn y diwedd gan yr eilydd, Ellis Deemer, o gic gornel – aeth y bêl dros y gôl geidwad ac i mewn.

Erbyn y diwedd roedd Brynrefs wedi cael sawl cynnig a tharodd Gruffydd y trawst gydag ergyd bwerus. Y sgôr terfynol oedd Brynrefail 2, Mold Alun 1.

Cynhadledd 'Gwerth yr Amgylchedd'


Ar Fawrth y pumed, cafodd criw Daearyddiaeth blwyddyn 12 gyfle i ymweld â Neuadd Craflwyn, Beddgelert, i fynychu'r gynhadledd. Eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw'r Neuadd ac mae'n lle addas iawn ar gyfer unrhyw waith yn ymwneud â'r amgylchedd. Pwrpas y gynhadledd oedd i geisio magu diddordeb y disgyblion mewn materion amgylcheddol fel eu bod yn ystyried gwneud cwrs Addysg Uwch a dilyn gyrfa yn y maes. Yn ystod y dydd, cafwyd cyfle i wneud ymarferion 'adeiladu tîm', sesiwn holi ac ateb a ffair stondinau. Cafodd y disgyblion gyfle i gyfarfod â phobl oedd yn dilyn gyrfaedd llwyddiannus ac amrywiol yn y maes amgylcheddol. Roedd y rhain yn amrywio o ddarlithydd prifysgol i Swyddog Ailgylchu Cyngor Gwynedd. Pwy a wŷr, efallai y bydd un o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn y dyfodol yn gwneud eu rhan i leddfu rhai o'r problemau sy'n ein hwynebu ni yn y byd heddiw!

Sialens Bryn Mawr

Yn diweddar, daeth 'Gyrfa Cymru' i'r ysgol i gynnal gweithdy 'Sialens Bryn Mawr' gyda blwyddyn deg. Gwelwyd y flwyddyn yn y neuadd drwy'r dydd, wedi eu rhannu i grwpiau ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn sialens menter drwy gychwyn busnes.

Yn ystod y diwrnod gweithiodd pawb yn ddiwyd a chafwyd digon o gyfleoedd i drafod, dadlau, cydweithredu a gweithio'n annibynnol. Erbyn diwedd y prynhawn roedd y flwyddyn i gyd wedi cael cyfle i archwilio priodoleddau entrepreneuriaid a rôl menter wrth greu cyfoeth.

Hoffai'r ysgol ddiolch i 'Gyrfa Cymru' am yr arweiniad a'r gwaith graenus. Yn bendant roedd y diwrnod yn un buddiol



Lauren, Aaron a Glesni – gwerthwyr gorau Raffl.



Anna a Tomos – llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd.



Leon Williams, Karen Owen, Gwion Rhys Jones, Albert Bedlow, Sophie Owen, Rhian George ac Aaron Williams – criw daearyddiaeth blwyddyn 12.



Sialens Bryn Mawr – y disgyblion yn eistedd o gwmpas y bwrdd.

i'r disgyblion. Enillwyr y dydd oedd Louis Williams, Gethin Maxwell, Kelly Jones, Megan Foster, Kelly Powell ac Aron Jones.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i aelod o'r grŵp buddugol, Gethin Maxwell, a dyma oedd ei ymateb, sy'n sicr yn cynrychioli barn y mwyafrif o'r disgyblion:

Beth oedd eich cynllun?

Ein cynllun oedd gwneud busnes ein hunain, yn cynnwys gwahanol fathau o ddillad. Mi oeddwn ni'n cynllunio edrychiad y siop.

Beth oedd eich barn o'r gweithgareddau?

Roedd y gweithgareddau'n hwyl ac yn gwneud chi i feddwl eto am ddechrau eich busnes eich hun.

Pa brofiadau pwysig a gawsoch chi ar y diwrnod?

Roeddem yn dysgu am sut i gydweithio gyda thîm a thrafod digwyddiadau a phroblemau.

A ddylai disgyblion blwyddyn deg wneud y math yma o beth yn y dyfodol?

Yn bendant, oherwydd ei fod yn dangos sut beth yw rhedeg eich busnes eich hun. Mae hefyd yn gwneud i rai gymryd diddordeb mewn rhedeg eu busnes eu hunain.

* * *

*Diolch i ti am dy atebion,
Gethin.*

Pêl-fasged Blwyddyn 8

Yn ddiweddar aeth dau dim pêl-fasged Ysgol Brynrefail i Maesglas ym Mangor i gystadlu mewn twrnament. Roedd sawl ysgol o'r ardal yn cystadlu: Ysgol Friars, Ysgol Caergybi, St.Gerrards, Ysgol y Berwyn ac eraill. Aelodau'r timau oedd Darren Jones, Dylan Roberts, Lloyd Hughes, Huw Owen, Rhodri Williams ac Osian Everett (Tîm A); a Michael Owen, Matthew Jones, Rhodri Brooks, Tomos Williams, Calvin Williams a Josh Robinson (Tîm B).

Daeth Tîm A yn ail drwy ennill tair gêm a cholli un a daeth Tîm B yn bedwerydd drwy ennill dwy, un yn gyfartal a cholli un. Llongyfarchiadau i'r ddau dim am eu llwyddiant.

Rygbi Blwyddyn 8

Yn ddiweddar chwaraeodd tîm rygbi bechgyn dan 13 Ysgol Brynrefail gêm blât yn erbyn Ysgol David Hughes. Hyfforddwr y tîm oedd Mr Arwyn Roberts, sy'n athro dan hyfforddiant gyda ni. Daeth Ysgol David Hughes i Frynrefail gyda charfan fawr o chwaraewyr, yn amrywio o chwaraewyr mawr i rai bach!

Roedd y gêm yn agos am y deng munud cyntaf, gyda'r ddau dim yn rycio a thaclo'n dda



Tîm Rygbi Blwyddyn 8.

iawn. Daeth olwyr Brynrefail i mewn i'r gêm ac roedd y gêm ar ben erbyn hanner amser, gan fod hogia Brynrefs yn chwarae'n gadarn a chryf iawn. Ef bod y blaenwyr yn chwarae'n dda iawn, seren y gêm oedd Darren Jones, a oedd yn chwalu cefnwyr Ysgol David Hughes ar adegau.

Y sgôr derfynol oedd 64-0 i Ysgol Brynrefail!

Llongyfarchiadau mawr i chi hogiau ac edrychwn ymlaen at y gêm nesaf!

Sports Relief

Ar ddiwrnod 'Sports Relief' eleni penderfynodd Cyngor yr Ysgol eu bod am drefnu gweithgareddau amrywiol er mwyn codi pres at achos da. Trefnwyd sawl gweithgaredd - gemau pêl-rwyd a phêl-droed rhwng y staff a disgyblion y chweched. Hefyd, cafodd y disgyblion wisgo eu dillad eu hunain a thalu am y frain. Trefnwyd cystadleuaeth 'keepie-upies' hefyd. Diolchwn i bawb am roi mor hael a chodwyd tua £700 tuag at yr achos.

Ymweliad Maureen Rhys

Ar ddydd Iau, Ebrill yr ail ar bymtheg, daeth Maureen Rhys atom i'r Adran Gymraeg. Mae myfyrwyr Cymraeg blwyddyn 12 wedi bod yn astudio'r ddrama *Siwan* gan Saunders Lewis yn ystod y flwyddyn fel rhan o'u cwrs uwch-gyfrannol. Ar Ebrill yr unfed ar hugain a'r ail ar hugain bydd eu gwybodaeth o'r ddrama yn cael ei brofi trwy arholiad llafar allanol.

Rydym yn hynod ddiolchgar i Maureen Rhys am gytuno i ddod atom i gynnal rhyw fath o wers adolygu. Roedd yn arbennig o ddiddorol gwrando arni yn trafod themâu, cymeriadau ac arddull y ddrama, ac yn cynnig ei dehongliad hi ei hun fel actores a gymerodd ran Siwan bum mlynedd ar hugain yn ôl o rai o linellau mwyaf cofiadwy'r ddrama.

Roedd y chweched wedi mwynhau ei chwmni difyr a bywiog ac yn ddiolchgar iawn iddi am ymweld â'i hen ysgol unwaith eto.



Tîm pêl-fasged A.



Tîm pêl-fasged B.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliament.uk**

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Y CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth: £40: Ms Janet Smith, Rhoslan; £25: Mrs Olwen Williams, Lldiart Wen; £10: Mr Ronald Williams, 8 Bro Waun.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 3 Ebrill cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Eglwys y Waun. Llongyfarchodd Catherine Jones, y Llywydd, Alice Johnston ar ddod yn nain eto ac Annie Thomas ar ddod yn hen-nain.

Croesawodd y Llywydd Mr W. Vaughan Jones, y cyn-Feddyg Traed, i siarad am 'Gofal o'r Traed'. Pwysleisiodd Mr Jones y pwysigrwydd o roi cymaint o sylw i'n traed a'r hyn a rown i'n gwalltiau. Eglurodd beth yw'r gwahanol bethau sy'n peri cymaint o drafferthion i ni, ac y mae llawer yn eu dioddef o achos gwisgo esgidiau anghywir ayb. Cafodd lawer o gwestiynau gan yr aelodau.

Diolchodd y Llywydd iddo am sgwrs mor ddiffr. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Alice, gan Nancy. Ar 8 Mai bydd y Sefydliad yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed gyda the ym Mhlas Tirion, Llanrug. EGLWYS Y WAUN. Cynhaliwyd Cyfarfod Sefydliu y Parchedig Gwenda Richards yn weinidog ar Eglwys y Waun nos Fercher, 12 Ebrill, pryd y cafwyd cynulleidfia deilwng a chartrefol. Roedd yn braf gweld gwaelod y capel yn llawn.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Lywydd yr Henaduriaeth, y Parchg Eric Jones, Bangor, a chymerwyd rhan gan y Parchedigion Harri Parri, Marcus Wyn Robinson a Trefor Jones. Ledwyd yr emynau gan bob ifanc yr eglwys, sef Dafydd Griffith, Elgan Rhys Jones a Mared Rhys Jones, a chafwyd dwy eitem gan Gôr y Waun, dan arweinyddiaeth Mrs Gwenda Griffith. Cafwyd gair gan y Dr Gwyn Lewis, Ysgrifennydd Eglwys Seilo, a estynnodd groeso i Eglwys y Waun i ymuno yn yr ofalaeth, a chan Mrs Pat Parry, Ysgrifennydd Eglwys y Waun. Traddodwyd pregeth deilwng a phwrpasol gan y Parchg Megan Williams, Dolgellau.

Ar ddiwedd y cyfarfod roedd lluniaeth i bawb yn y Ffestri ar ei newydd wedd, wedi ei baratoi gan chwiorydd yr eglwys.

DATHLU PEN-BLWYDD. Yn ystod mis Ebrill bu'r 'triplets' Marc, Siôn a Dafydd Greasley, Stad Pant y Waun, yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Llongyfarchiadau ichi, hogia, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Yr un yw ein dymuniad i Owain Thomas, Stad Tref Eilian, yntau hefyd wedi cyrraedd ei ddeunaw oed. Llongyfarchiadau, Owain.

DATHLU PRIODAS AUR.

Anfonwn ein llongyfarchiadau at Arthur ac Edith Ellis, Min y Nant, a fu'n dathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol. Gobeithiwn eich bod eich dau wedi mwynhau eich diwrnod.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Mrs Alice

Johnstone, Stad Tref Eilian, ar enedigaeth Daniel, ŵyr bach iddi, mab i Ian a Samantha, a brawd bach i Daniel.

LLONGYFARCHIADAU i Ffion ac Alun Ellis, Bryn Gwryfai, ar enedigaeth merch fach, Seren, wyres fach gyntaf Ann a Raymond Edwards, Melin y Wig a gor-wyres i Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan.

PRIODAS. Dymunwn longyfarch a dymuno priodas hapus i Aled Rhys, Pen-y-Graig, a'i briod, Gwenan Jones o Dal-y-Bont ger Aberystwyth a briodwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mrs Edith Ellis, Min y Nant, a Mr Eifion Williams, Stad Tref Eilian, adref o'r ysbyty. Hefyd Miss Marian Wyn Jones (Foelas) a fu yn yr ysbyty am gyfnod yn ddiweddar. Gobeithiwn y byddwch yn teimlo'n well ar ôl cael dod adre.

Oherwydd iddi gael ei chymryd yn wael yn ei chartref yn Stad Bryn Golau, gorfu i Mrs Alice Hughes fynd i'r ysbyty, ond da cael dweud iddi hithau gael dod adref.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mr Mark Jones sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gobeithio y byddwch yn gwella'n fuan.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn yr ysbyty bu farw Mrs Mair Parry, Stad Croesywaun. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei mab, Dewi, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mam.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd at Dafydd, Tom a Lynne a'u teuluoedd, hefyd at deulu Mable (ei diweddar ferch) yn eu profedigaeth o golli Mam a Nain annwyl, sef y ddiweddar Mrs Lilian Pritchard, Stad Bro Waun.

Yn frawychus o sydyn bu farw Eirian, merch Gwynfor a Glenys



Y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfod.

Williams, Ty'n Weirglodd, Betws Garmon. Roedd yn chwaer i Gwyndaf a'r teulu, Caeau Gwynion. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi ac â'i phriod, Idris, ac â'i mab, Arwel a'r teulu ar Ynys Môn yn eich colled enfawr a thrist. DIOLCH. Dymuna Llion a Siân sddiolch i bawb am eu cardiau ac anrhegion yn dilyn genedigaeth Mari Rhun yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Gwynfor, Glenys, Gwyndaf a Bethan ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd i ni trwy alwadau ffôn, llythyrau, cardiau, ymweliadau, rhoddion ariannol a'r cacennau yn ystod eu profedigaeth lem ac annisgwyl o golli Eirian. Mae'r cyfan wedi bod yn gysur mawr i ni fel teulu. Diolch o galon.

DIOLCH. Dymuna Annwen,

Arnold, Beryl, Malcolm ac Adrian ddiolch o galon am yr holl gardiau a'r galwadau ffôn gan ein cymdogion a'n ffrindiau ac am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd ar ein profedigaeth drist o golli Mam, Nain a Nain bach, sef Jennie Monica Roberts, 9 Bryn Golau.

Diolch am y rhoddion hael a gasglwyd, sef £500, tuag at Ysgol Waunfawr. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r Parchedig Gwenda Richards, i Feddygfa Waunfawr ac i Gwynfor Jones o E. W. Pritchard, Llanberis, am drefnu'r angladd. DYMUNO'N DDA. A hithau yn ddechrau Mai unwaith eto, daeth yn gyfnod arholiadau ysgol a choleg i'n plant a'n pobl ifanc. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch fydd yn sefyll yr arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gweler gweddill hanes Waunfawr ar dudalen 23

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc –
allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**



Gŵyl Fai

Hwyl i'r holl deulu

Dydd Sadwrn Mai 3ydd 2008 am 1yh

Amrywiol stondinau, crefftwyr, castell
bownsio ac adloniant.

Gerddi Bryn Pistyll, Siop a Caffi ar agor.

Cystadleuaeth gwisg ffansi i blant.



Am Fanylion: Antur Waunfawr – (01286) 650 721
heulwen@anturwaunfawr.org
www.anturwaunfawr.org

Mynediad: Oedolion £1.00 • Plant 50c

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DIOLCH. Dymuna Gordon a Gill Parry, Gwalia, Pen-ar-Lâg, ddiolch i bawb o'r ardal am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant wedi eu profedigaeth lem o golli eu mab annwyl, Mark.

DATHLU YMDDEOLIAD WARDEN EGLWYS SANT PADARN. Fe ddymuna Mrs Audrey Evans ddiolch i'r Parchedig Robert Townsend, ac am gyfraniad pawb a wnaeth nos Wener, 18 Ebrill, yn arbennig a bythgofiadwy iddi yng Ngwesty Victoria, Llanberis. Hefyd diolch o galon i'r nifer a ddaeth i'r cinio ac i bawb am eu cefnogaeth drwy'r blynyddoedd.

Y GYMDEITHAS UNEBOL.

Nos Fawrth, 8 Ebrill, terfynwyd tymor y Gymdeithas gyda chinio blasus ym Mwyty'r Copa, Llanberis.

Cafwyd noson wych a hwyliog yng nghwmni'r wraig wadd, sef yr amryddawn Bethan Gwanas, Rydymain. Rhoddodd fraslun i ni o'i gwaith fel nofelydd, colofnydd a sgriptwraig. Hefyd soniodd am yr amrywiol raglenni teithio mae wedi eu gwneud i S4C.

Llywyddwyd gan y Parchedig John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Mattie Hughes. Diolch i bawb am wneud y noson yn un mor llwyddiannus.

Trefnir pwyllgor yn ystod yr haf i drafod y rhaglen am dymor 2008/09, fydd yn cychwyn ym mis Hydref eleni.

MARWOLAETH. Yn ddewr, yng nghwmni Ruth, Catrin a Gwyn yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, ar 15 Mawrth, bu farw Moreen Lennon, Plas Tirion, Llanberis, yn 77 mlwydd oed.

Merch o Lanberis ydoedd 'Mor', wedi treulio'r rhan helaethaf o'i bywyd yn ei mltir sgwâr, a bu'n ymroddedig a ffyddlon i'w gŵr, ei theulu a'i ffrindiau ar hyd ei hoes. Rhoddodd ei chariad, ei chefnogaeth a'i chyfeillgarwch bob amser yn ddiadmod.

Bu'n athrawes yn Ysgol Gynradd Porth Amlwch cyn cael ei hapwyntio, yn 26 oed, yn Brifathrawes ar ysgol fach Nant Peris. Er iddi dreulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Llanberis, roedd ganddi feddwl mawr o bentref a phentrefwyr y Nant, a chadwodd

ei chysylltiad agos â'r pentref hwnnw gan roddi ei chefnogaeth i'r Eglwys, ac roedd ei brwdfrydedd i gystadlu yn Ffair y Nant yn heintus ac yn destun tynnu coes yn aml ym Mhlas Tirion!

Oddi yno aeth yn Brifathrawes i Ysgol Gynradd Brynrefail, cyn diweddu ei gyrfa, ym 1987, yn Ysgol Gynradd Cwm y Glo. Roedd ei dylanwad ar, a'i hymroddiad tuag at, blant a myfyrwyr yr ardal yn amlwg yn y llu cardiau a'r geiriau o gysur a dderbyniwyd. Yn Wraig, yn Fam a Nain, Chwaer a Ffrind unigryw, roedd hefyd yn un o'r personau hynny oedd yn ymddiddori mewn nifer o feysydd, yn weithgar yn y pentref, ac yn dal yr eglwys a'i chrefydd yn agos iawn at ei chalon. Bydd yn anodd iawn, iawn llenwi'r bwlch.

Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ac fe weinyddwyd gan y Parchedig Robert Townsend, yr Hybarch Alun Hawkins (Deon Bangor), a Mr Derek Jones. Yr organydd oedd Iwan Wyn Williams. Fe'i rhoddwyd i orffwys yng ngofal ei chyfaill gorau, 'Ed', ym mynwent Nant Peris.

Y cludwyr oedd Gwyn Thomas, Gordon a Hefin Parry, Richard Parry, Michael Fox-Parry a Timothy Ward.

Y prif alarwyr oedd Ruth a Catrin (merched), Miriam (wyres), Gwyn (mab-yng-nghyfraith), Gordon a Gill, Hefin a Katte a'u teuluoedd (brodyr a'u gwragedd), Ann, Gwyneth ac Awen (chwiorydd) Michael a Carol, Alison a Peter a'u teuluoedd (nai a nith). Roedd yr Eglwys yn orlawn o deulu, ffrindiau a chymdogion rhy niferus i'w henwi.

Derbyniwyd blodau yn ddiolchgar, ac yn unol â dymuniad Ruth a Catrin, i gofio ac i ddiolch am fywyd eu Mam, gan nifer rhy fawr i'w henwi.

Yn anffodus, absennol oedd Jennie Lennon (chwaer-yng-nghyfraith), Mark a Jonathan Parry (neiaint).

Cynhaliwyd y te yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis, a gwnaethpwyd y trefniadau yn drylwyr a theimladwy gan Gwynfor a Jane Jones o gwmni E.W.

Pritchard, Llanberis. Derbyniwyd cyfaniadau er cof am 'Mor' i'w rhannu rhwng Ysgol Gynradd Llanrug ac i ddiolch i staff Ward Alaw am eu cyfeillgarwch ac am ofalu amdani mor dyner a difflino.

DIOLCH. Dymuna Ruth, Catrin, Miriam, Gwyn a theulu y ddiweddar Moreen Lennon, Plas Tirion, ddiolch i'r ardal am y caredigrwydd a'r parch a ddangoswyd tuag atynt a thuag at Fam a Nain annwyl ac unigryw iawn. Diolch hefyd i bawb a anfonodd gardiau ac anrhegion i Mam tra bu yn yr ysbyty.

Hoffai Ruth a Catrin gymryd y cyfle i ddiolch i'w holl ffrindiau am eu cefnogaeth a'u cynhaliath ddiolch yn dilyn marwolaeth eu Tad, ac yn ystod salwch eu Mam. Diolch yn arbennig i Ann am ofalu a sicrhau bod bywyd Miriam fach yn mynd yn ei flaen fel arfer. Mae'n gysur mawr gwybod bod gennym ffrindiau mor ffyddlon. Mae'n dyled yn fawr – diolch o galon.

STAFF WARD ALAW. Hoffwn, trwy gyfrwng yr englyn canlynol a ysgrifennwyd gan ffrind annwyl i mi, dalu teyrnged i Staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, am yr ymroddiad a'r cariad a dderbyniodd fy chwaer, Moreen, ganddynt tra yn eu gofal.

Staff Ward Alaw

Yn Alaw, mae angylion – ar warchod Wrth erchwyn y celfion.

Yn oriau dwys croesi'r don,

Ceir ystyr i'r gair, Cristion.

ALUN PENNANT

CYMANFA'R ANNIBYNWYR

CYLCH DEINIOLLEN A CHWM Y GLO. Cynhelir y Gymanfa yn Ffestri Capel Ebeneser, bnawn Sul, 18 Mai am 2.00 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd Gareth Jones, Llanberis.

Bydd bws yn cychwyn o Lanberis am 1.15; Cwm y Glo am 1.25; Penisarwaun am 1.30.

Gwneir casgliad. Taer erfynnir am eich cefnogaeth

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion Ebrill 2008

Cofnodion cyfarfod nos Iau, 17 Ebrill, 2008 a gynhaliwyd yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Presennol ac Ymddiheuriadau

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Elwyn Davies (Cadeirydd), Bethan Holding, Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts.

Ymddiheuriadau: Gavin Allsup.

Cyflog y Clerc

Cyn cyfarfod y Cyngor cyfarfu'r aelodau uchod, ac eithrio Trystan Thomas, yn absenoldeb y Clerc i drafod ei gyflog. Bu'r Clerc ar yr un cyflog a threuliau ers 4 blynedd. Penderfynwyd codi'r cyflog a phenderfynwyd hefyd i ystyried cyflog ac amodau gwaith y Clerc yn flynyddol ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd, yn Ebrill.

Datgan Buddiant

Dywedodd BD ei fod yn ymwybodol fod gofyn iddo fod yn ofalus ynglŷn â materion yn ymwneud â Pharc Padarn

oherwydd ei gyfrifoldebau gyda Chyngor Gwynedd (CG).

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau, 20 Mawrth 2008. Cynnig ac eilio: FO / EB.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

- Cae Pêl-droed UEFA: Cafwyd adroddiad gan y Clerc fod materion yn ymwneud â'r cae yn symud ymlaen yn foddhaol. Erbyn diwedd y mis roedd yn hyderus y byddai caniatâd cynllunio a'r cymorth ariannol wedi eu cadarnhau, ac y byddai'r gwaith yn dechrau yn fuan. Ychwanegodd fod lle i ganmol swyddogion CG am eu gwaith trylwyr. Roedd hi'n dal yn amhosib dweud yn union beth fyddai cyfraniad ariannol y CC. Penderfynwyd oedi am fis arall cyn ystyried ceisiadau am gymorth o'r Gronfa Cymorthdaliadau Bychan.

- Angorfa: Bellach mae llawr isaf 'Angorfa' wedi ei glirio, a diolchodd ED, y Cadeirydd, i DP a BD am eu cymorth i wneud hynny. Eglurodd BD y bydd creiriau T. Rowland Hughes yn cael eu symud yn fuan a dywedodd y Cadeirydd ei fod yn trafod gyda chyn-aelod o Fand Llanberis beth i'w wneud â chorn neu ddau a oedd yn y tŷ, ynghyd â thafenni cerddoriaeth. Roedd hefyd yn gobeithio darganfod lle yr oedd gweddill cynyr yr hen fand. Cafwyd gair o ddiolch oddi wrth BD am fod y bwrdd a'r cadeiriau wedi eu trosglwyddo i Glwb Antur Dyffryn Peris. Mae unrhyw ddeunyddiau yn ymwneud â'r cyn-garnifal i'w trosglwyddo i Meirwen Baylis. Eglurodd y Clerc fod allwedd i'r tŷ i gyd i law a'i fod wedi bod yn diolch yn ffurfiol i Gwenda Harding am ofalu am 'Angorfa' am

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

flynyddoedd maith.

- Adroddwyd fod baw cŵn a thail ceffyl yn dal yn broblem mewn rhannau o'r pentref. Penderfynwyd anfon at CG a'r Warden Cŵn i ofyn iddo ymweld â'r pentref, a phenderfynwyd hefyd y dylid rhoi gwybod iddo am y nifer o gŵn a oedd yn gyson yn cael eu gollwng allan wedi nos, 'i wneud eu busnes', gan berchnogion anghyfrifol.
- Cae Chwarae Min y Llyn: Cafwyd prisiau i roi tarmac lle mae erydu drwg yn y cae, ac i roi gwely rwyber o gwmpas y Cwrs Polion. Penderfynwyd trafod y mater y mis nesa wedi cael gwybod ynglŷn â chost Cae Pêl-droed UEFA. Adroddwyd fod BD wedi trafod gyda'r Clerc a chytuno y byddai swyddogion Parc Padarn yn rhoi ffens goed rhwng rhan o'r maes chwarae a'r ffordd fawr, yn ôl argymhelliad y cwmni yswiriant, yn ogystal â giât newydd.
- Arwyddion Strydoedd: Gofynnwyd i'r aelodau am restr o strydoedd lle mae angen arwyddion newydd. O fwyaf, pleidleisiwyd y dylai enwau'r strydoedd fod yn uniaith Gymraeg.
- Maes Parcior Llyn: Dywedodd BD ei fod yn cael ar ddeall fod CG yn gobeithio dechrau'r gwaith o addasu'r safle ar ôl gwyliau'r haf. Yn y cyfamser rhybuddwyd fod llawer yn dal i barcio ar y palmant. Tybed oes modd cael llinellau melyn i atal y parcio?

Cynllunio

Cyngor Gwynedd:

- C08A/0169/15/LL: Estyniad cefn 1 Field Terrace, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.
- C08A/0195/15/CR: Dymchwel dau gyn-annedd, adeilad festri a storfa: Capel Jerusalem, Pentre Castell, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):

- NP3/15/82A: Addasu'r estyniad ochr un-llawr presennol i greu estyniad deulawr, adeiladu portsh newydd i ffrynt y tŷ a gosod ffenestri to: 16 a 17, Pentre Castell, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.
- NP3/15/171A: Adeiladu estyniad cefn deulawr: 7 Rhes y Faenol, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.

Wedi ei Ganiatáu / Gwrthod

CG: Caniatáu

- C08A/0139/15/LL: Estyniad deulawr ar ochr yr eiddo, estyniad un llawr ar gefn yr eiddo a gosod tanc septig: Hafod

Lydan, Llanberis.

Soniwyd am nifer o ddatblygiadau yn Llanberis a holwyd a oeddynt angen, neu wedi cael, caniatâd cynllunio.

- a) Estyniad Beech Bank;
- b) Mynediad i dir Surflines, Y Glyn;
- c) Garej newydd yn Ffordd Capel Coch.

Trwyddedu

Ymgynghoriad gan CG ynglŷn â chais am drwydded gwerthu alcohol ar gyfer Hafod Eryri, ar gopa'r Wyddfa. Nodwyd fod cwmni'r rheilffordd yn galw'r lle yn Snowdon Summit Hotel a phenderfynwyd anfon gair atynt, ac at APCE, yn nodi mai Hafod Eryri ydi enw'r adeilad a'i fod ar gopa'r Wyddfa.

Holwyd pam fod angen trwyddedu o 11 tan 23.30, a pham fod angen trwydded ar gyfer dydd Nadolig, nos Galan a dydd Gwener y Groglith, pan nad oedd y trenau'n rhedeg. Holwyd, onid peth peryglus oedd gwerthu diodydd meddwol yn hwyr i'r nos ac yn ystod y gaeaf, ac yn y fath le?

Gohebiaeth

- Nodwyd na fydd Etholiad ar gyfer y Cyngor Cymuned a bod pob un o'r aelodau presennol yn aelodau am y pedair blynedd nesaf. Fydd dim seddi gwag.
- Ombwdsmon: Derbyn copïau o 'Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda ac Egwyddorion Unioni Cam'.
- Adran Gynllunio CG: mewn ateb i lythyr gan y Clerc, yn derbyn fod Dolperis a'r 'lodge' wedi eu hysbysebu'n anghywir ac yn gamarweiniol o dan arwydd 'Ar Werth'. Bydd CG yn awr yn ysgrifennu at yr asiant sy'n gwerthu i nodi hynny.
- Un Llais Cymru: Rhybudd o

ddyddiad cyfarfod sirol (nos Iau Ebrill 24, Caernarfon)

- CG - Cyfadran Amgylchedd: Fod gwaith 'ailwynebu' i'w wneud ger Cyffordd y Glyn a Maes Padarn.

Unrhyw Fater Arall

- Rhes Fictoria, Stryd Goodman a Maes Padarn: Cafwyd nifer o adroddiadau am barcio anghyfreithlon; parcio gan ymwelwyr; Wardeniaid traffig gor-frwdfrydig; anwybyddu arwyddion traffig ac arwyddion parcio i drigolion yn unig. Holwyd a fyddai modd cael rhywun o CG i gyfarfod y Cyngor i drafod rhai

o'r materion yma? Awgrymwyd trafodaeth lawn y tro nesa, gan ofyn i rai cyngorwyr ymgynghori yn lleol ynglŷn â barn y trigolion am ddatblygu trefn o drafnidiaeth un-ffordd.

- Parcior Nantperis: Mae pryder yn y Nant beth fyddai effaith codi tâl yn Maes Parcior APCE ar weddill y pentref. Penderfynwyd anfon gair i holi beth oedd bwriadau Awdurdod y Parc a 'Goriad Gwyrdd'.

Cyfarfod Nesaf

Gwesty Victoria, nos Iau y 15fed o Fai, 2008 am 7 yr hwyr.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



*Royal Victoria
Quality Hotel
Llanberis*

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: **870088**

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

SWIGOD A SEBON



www.fframio.com


FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU



**J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG**

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref

01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Atgofion Hen Sgotwr

Mae Llyn Peris, neu fel yr oeddem yn ei alw erstalwm, Llyn Nant, wedi newid cryn dipyn ers pan oeddwn i yn ei 'sgota.

Llyn gyda'r nos oedd Llyn Padarn, doedd fawr o werth ei sgota yn y prynhawn. Ond roeddem yn medru pysgota Llyn Nant trwy'r dydd.

Roedd yn bleser taflu pluen allan ar gaeau Pwll Eilir Isaf, ac roedd caniatâd i'w gael yn ddigon rhywdd gan Harry Tŷ'r Mawn, a oedd yn ei ffarmio yr amser hynny. Wrth bysgota ar y creigiau o dan y Wern, a safai tua hanner canllath at y Nant o fynedfa Cwm Eilir, a gâi ei gadw bryd hynny gan hen wreigan a oedd yn gwerthu te, coffi a diodydd ysgafn, gyda chacennau neu felysion, mewn siop fach ar ochr y ffordd o flaen y tŷ. Roedd hi hefyd yn hoff iawn o frithyll! Ond mae'r cyfan wedi mynd. Does dim i'w weld erbyn heddiw.

Roeddwn yn hoff iawn o bysgota gyda fflôt a phry genwair oddi ar y creigiau. Roeddech yn siŵr o blwc, ond slywod gan amlaf.

Lle arall bendigedig am bysgod yn Llyn Nant oedd y dyfnder o dan y castell. Ond lle anodd goblyn i ddal rhai – yno y cefais wers heb ei disgwyl ar sut i fachu. Addewais yn bendant i'r un a ddangosodd i mi sut i gael haid da o bysgod o'r llecyn hwn, y buaswn yn cadw'r gyfrinach. Erbyn hyn mae fandaliad yn enw 'symud ymlaen' wedi difetha'r llyn yn llwyr. Hefyd, gan fod yr hen gymeriad wedi ymadael â'r fuchedd hon, rwyf am dorri fy addewid. Fe welais hyn â'm llygaid fy hun, a dyma, yn fyr, sut y digwyddodd.

Fel llawer un arall, roeddwn wedi gweld a cheisio bachu'r pysgod nobl a godai o dan y castell, ond yn cael dim hwyl arni. Nid oedd y gwynt byth yn taro'r gornel yma o'r llyn, felly roedd yn anodd dros ben cael bachiad.

Ond roedd yna un hen fachgen o Bentreicastell a fachai bron bob tro yr oedd yn mynd allan. Ond nid oedd yn fodlon rhannu'r gyfrinach efo neb. Erbyn hyn rwy'n credu na waiff ei rhannu unrhyw ddrwg.

Fe sylwais arno un diwrnod braf, pan oeddwn yn gorffwys ar ochr uchaf poncan y castell, yn dod â llond llechen o dail gwartheg efo fo ac yn ei osod mewn llecyn yn llygad yr haul. Mewn dim amser roedd y llecyn yn llawn o bryfed chwythu. Yna torrodd frigyn efo dail arno oddi ar goeden a rhoi chwip i'r pryfed fel yr oeddynt yn hedfan. Roedd hyn yn eu taro allan am ychydig eiliadau, digon i'w rhoddi ar fachyn. Yna eu taflu

allan i'r llyn. Pan ddaethai'r pryfed at eu hunain a chwarae ar yr wyneb, fe ddôl brithyll i fyny a'u llyncu.

Ia, mor syml â hynny. Ond roedd yn ddull penigamp o gael pysgod yn y darn hwnnw o'r llyn. Pan ddywedais wrtho be roeddwn wedi'i weld, meddai, 'Wel, y diawl bach! Paid ti â deud wrth neb sut i'w dal nhw.'

Pan oedd digon o amser gennyf byddai'n werth mynd i Nant, dechrau yn Offis Gorcyn a mynd ymlaen at geg Afon Nant. Os oedd yna li roedd yn addawol iawn yn aml i fynd i fyny'r afon. Fe gefais bysgod da fwy nag unwaith.

Dyna rhyw fraslun o bysgota Llyn Peris. Y mis nesaf fe gawn ddechrau ar Lyn Padarn ac Afon Bala.

R. ELWYN GRIFFITH



Ar Ben Arall y Lein

Dal i fod yn dawel mae pethau ar y tair afon, ond does dim arall i'w ddisgwyl gyda'r holl oerni sydd wedi bod o gwmpas yn ddiweddar. Ond, er bod yr afonydd yn araf, mae pethau wedi bod yn eithriadol o dda ar Lyn Padarn a hefyd Dywarchen. Brithyll yr Enfys newydd eu stocio yw'r dynfa tuag at Rhyd Ddu, ond Padarn... wel brithyll brown mewn cyflwr arbennig sy'n ein denu.

Ganol Ebrill fe gefais rhyw ddwy awr arbennig ar Padarn, er ei bod yn eithriadol o oer a'r Wyddfa yn drawiadol dan ei mantell wen. Ydynt, mae'r mynyddoedd yn arddangos eu hunain mewn goleuni hollol wahanol pan mae rhywun ar y dŵr yn hytrach na cherdded y glannau. Do, fe gefais frithyll

hefyd a dim ond cadw dau at y badell! Go arbennig oedd swper chwarel y noson honno gyda physgod cynta'r tymor.

Prynhawn y diwrnod canlynol roedd cyfarfod gyda swyddogion Adran Pysgodfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd ym Mangor, i drafod cynlluniau gwella'r pysgodfeydd. Cafwyd hefyd fraslun newydd o gynlluniau arian Ewrop 2008–2012. Mae oddeutu 3 miliwn o bunnau ar gael at gynlluniau i ddatblygu pysgodfeydd. Asiantaeth yr Amgylchedd fydd yn rhedeg y cynllun ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, ac ia, rydach chi'n iawn, arian o Ewrop ydi o, ond o Gaerdydd y bydd yn cael ei reoli.

Be oedd yn siom oedd sylweddoli fod yr arian yma i gael ei ddidoli dim ond i afonydd sydd wedi sefydlu Ymddiriedolaeth i redeg pethau. Rydym ni fel cymdeithas wedi edrych ar hyn ac wedi mynychu cyfarfodydd i geisio dadansoddi'r ffeithiau sut y buasai symudiad o'r fath o fudd i'r fro hon. Yn anffodus, pan ofynnwyd a fuasai'n bosib i'r clwb sefydlu ymddiriedolaeth ar ein dyfroedd ein hunain, yr ateb oedd na – am nad ydym ni'n ddigon mawr! Felly, mae'n sefyll i reswm, ni fydd yn bosib sefydlu dim yma!

I ble mae'r arain am fynd? Pwy fedr ddyfalu? Wel, dyma'r ateb – Ymddiriedolaethau Afonydd Conwy/Clwyd, ac ymhellach eto i'r dwyrain, sef Ymddiriedolaeth y Ddyfyrddwy.

Yr unig ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru yw'r rhai ar y Wysg, Gŵy, Taff, Sir Benfro a'r Teifi. Dyma ni yn y gogledd-orllewin, unwaith eto, yn cael ein hamddifadu o arian a fuasai'n ein galluogi i wneud gwelliannau aruthrol.

Rwyf wedi cysylltu â'r Aelod Cynulliad i geisio cael cadarnhad, un ffordd neu'i gilydd, o gywirdeb hyn. Rwy'n ffyddiog y bydd yr ateb gen i'n llawn erbyn y rhifyn nesaf.

Tipyn o wybodaeth sy'n gyffredinol erbyn hyn yw fod y Cynulliad Cenedlaethol, o leiaf, yn cadw at yr addewid o leoli Adrannau mewn gwahanol leoliadau dros Gymru. Mae'r Adran Bysgodfeydd ar ei ffordd i Aberystwyth. Ardderchog! Ond nid yw hyn, yn ôl pob golwg, yn mynd i lawr yn dda gyda rhai swyddogion. Dim eisiau symud o brysurdeb y ddinas fawr yw'r rheswm myaf tebygol, mae'n debyg. Ond fel yna mae hi yndê!

HUW PRICE HUGHES

NERTH BÔN BRAICH: Awduresau Lleol yn Torchï Llewys!

Nerth Bôn Braich

Sian Eirian Rees Davies
Rhianon Thomas
Caron Edwards
Gwen Lasarus
Annes Glynn
Eurgain Haf
Janice Jones



byddai'r plant acw'n mwynhau gwyllo rhaglenni dynion a merched cryfion ar y teledu pan oedden nhw'n iau. Dyma ddechrau dyfalu beth fyddai'n ysgogi merch i ymgymryd â disgyblaeth mor lem – yn enwedig gan nad yw f'ymdrechion i fy hun i gadw'n heini byth yn mynd fawr pellach nag ymlafnio i agor paced o fisgedi siocled! – a daeth y ddau beth at ei gilydd.

'Mi wnes i gysylltu â nifer o awduresau a ffurfiwyd criw o saith. Fe gawsom sêl bendith Robin Llywelyn i osod y stori ym mhentref Portmeirion ac, wrth gwrs, bu'n rhaid

ymweld â'r pentref a chiniawa yno yn enw ymchwil! A buom yn ddigon ffodus i gael Geoff Capes, pencampwr cystadleuaeth Dyn Cryfa'r Byd, i'n cynghori ar faterion deiet ac ymarfer.'

Meinir, Tania, Bethan, Calennig, Ceri, Ses a Buddug... Tra bo pobl eraill yn dod i Bortmeirion i ymlacio ddechrau Mai, mae'r rhain yno i weithio a chanolbwyntio ar un peth yn unig, sef cyrraedd y brig – a hynny mewn steil. Beth sy'n eu hysgogi i weithio mor galed? A pha sgandals sy'n ffrwtian dan yr wyneb ym myd cystadleuaethau merched cryfion? Pwy sy'n creu clecs, pwy sy'n y clic, ac a fydd unrhyw ieir clwc?...

Mae'r holl atebion i'w cael rhwng cloriau'r nofel gywaith arloesol yma. Saith awdures. Un nod. Stori ddifyr.

Nerth Bôn Braich,
Gwasg y Bwthyn, £7.95

Mae dwy awdures o fro'r Eco yn rhan o brosiect cyffrous sy'n torri tir newydd yn hanes y nofel Gymraeg ddiweddar.

Nofel gywaith yw *Nerth Bôn Braich*, ffrwyth cydweithio rhwng saith o awduresau profiadol yn cynnwys Gwen Lasarus o Fethel ac Eurgain Haf o Benisarwaun. Yr enwau eraill yw Sian Eirian Rees Davies, Caron Edwards, Annes Glynn a Rhianon Thomas ac y mae pob un wedi mynd ati i greu ei chymeriad ei hun a llunio'i stori.

Breuddwyd yr awdures o Dregarth ger Bethesda, Janice Jones, yw *Nerth Bôn Braich*, nofel yn dilyn hynt a helynt criw o ferched sy'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddarganfod pwy fydd Merch Gryfaf Cymru.

Meddai Janice: 'Roeddwn i wedi darllen dwy nofel gywaith gan awduron o'r Iwerddon, ac wedi fy nenu at y syniad. A

Ieuan Gwyn Closs Evans

Ar ôl gwaeldd byr bu farw Ieuan Evans, yn wreiddiol o Bron 'Rallt, Cwm y Glo, ar Fawrth 22ain, yn 80 oed. Y prif alarwyr oedd ei briod, Margaret, ei feibion, Richard Evans, Derby, a Dr. Michael Evans, Michigan, a'i frawd, John Llywelyn Evans, Nefyn. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor gyda'r Parch Harri O. Jones yn gweinyddu. Talwyd teyrnged iddo gan ei gyfnither, Ceinwen Jones, a'i gyfaill, Geraint Davies, Waunfawr.

Dyma grynoded o atgofion er cof annwyl am Ieuan, oedd mor hoff o'i fro enedigol.

Wedi geni Ieuan, a'i fam yn gofalu amdano gartref, aeth ei dad, Evan Evans, i gofrestru'r enedigaeth a'i enwi'n Ieuan Gwyn. Roedd ei fam, Nyrs Mary Closs, yn ymfalchïo yn ei gwreiddiau a pherswadiodd y gweinidog i'w fedyddio'n Ieuan Closs: felly yr adnabyddid o gan bawb o'r ardal a dyna a welir ar wal neuadd ysgol Brynrefail yn dangos iddo ennill ysgoloriaeth.

Pan oedd yn ysgol Cwm y Glo, pryderai ei fam am ei ddiffyg diddordeb mewn gwaith ysgol. Ond pan ddaeth canlyniadau y sgolarship roedd Ieuan ar ben y rhestr yn y dalgylch i fynd i Ysgol Brynrefail. Flynyddoedd yn ddiweddarach, ac yntau'n eistedd arholiad yr 'Higher', sylweddolodd y prifathro, Emrys Thomas, fod Ieuan yn absennol. O holi ei ffrindiau cafodd ar ddeall fod Ieuan, oedd yn nofiwr cryf, o bosibl yn y Seiont gerllaw Y Frican; ac yno yr oedd yn nofio'n braf. Hebryngodd y prifathro fo'n ôl i'r arholiad awr yn hwyr ond, er hynny, llwyddodd gydag anrhydedd fel ag y gwnaeth yn y pynciau eraill.

Graddiodd ym mhrifysgol Aberystwyth mewn Almaeneg. Yna bu gartref am sbel yn gweithio ar lein yr Wyddfa cyn codi ei bâc a chael gwaith fel athro ym Madrid. Tra roedd yno gwahoddwyd o i ddysgu Saesneg i Weinidog o lywodraeth Sbaen. Daeth yn rhugl yn y mwyafrif o'r ieithoedd modern Ewropeaidd a chyn bo hir penderfynodd ddysgu ieithoedd Slafig, gan feistroli y ddwy iaith Serbo-Croat. Yna canolbwyntiodd ar ddysgu Rwsieg. Yn fuan daeth ei allu ieithyddol a'i wybodaeth wyddonol i sylw cwmnïau diwydiannol rhyngwladol.

Yn ystod y cyfnod yma cyfarfu â Margaret Higham o Hoylelake a arferai dreulio penwythnosau yn Nhy'n Giât, Fachwen. Yn fuan ar ôl eu priodas aethant i fyw i Basle yn y Swisdir, lle gweithiai Ieuan fel cyfieithydd technegol i 'Sandos'. Yn 1965 daethant yn ôl i Loegr a feuan erbyn hynny yn gyfieithydd Adran Fferyllol cwmni ICI yn Macclesfield. Magwyd eu plant, Richard a Michael, ym mhentref Comberbach.

Ymgartrefodd Ieuan a Margaret ym Mhorthaethwy ar ôl ymddeol, lle cafodd bleser o weld a chrwydro mynyddoedd Eryri a oedd mor agos at ei galon. Ymunodd y ddau â chymdeithasau lleol a chael mwynhad yn y Cyrsiau Gydol Oes ym Mhrifysgol Bangor. Roedd yn aelod o Glwb Cerdded ac un o'r pethau olaf a wnaeth oedd trefnu taith iddynt o Benllyn i fyny Fachwen a Dinorwig ac i lawr i Nant Peris. Un o'i ddiddordebau ers ei blentyndod yng Nghwm y Glo oedd astronomeg. Prynnodd ysbienddrych i astudio'r gofod yn y nos a gwyddai pa amser oedd hi wrth edrych ar y sêr. Roedd hefyd yn ymddiddori mewn archaeoleg. Ond i bawb o'i ffrindiau ei anwyldeb a'i natur ddiymhongar a di-lol ddôl i'r amlwg.

Bydd chwith mawr i'w deulu ar ei ôl, yn arbennig ei wraig Margaret, ei feibion a'u teuluoedd a'i wyrion, Mark a Samuel, a roddodd gymaint o bleser iddo. Cydymdeimlwn hefyd â'i frawd, John Llywelyn, a'i briod Mary a'r plant, Sioned, Ceri, Bethan, Manon, Meirion, Deiniol a Heulwen, Penisarwaun.

Sôn am gau ysgolion bach cefn gwlad

Y Gwreiddyn Coll

Mae dyfodol llawer ysgol
Yn y fantol, 'nôl y sôn,
Byddai'r cynllun uchelgeisiol
Yn ein mathru yn y bôn.

Anodd derbyn newidiadau
Sy'n ymddangos mor annheg,
Cyn ymrwmo i gynlluniau,
Chwi'r Cynghorwyr, cyfrwch ddeg.

Os am godi'r gwreiddyn eiddil
Yna'i gludo i lawr i'r dref,
Bydd yr ysgol ond cofadail
Am gymdeithas lon ei llef.

Llawer ysgol hanesyddol
Fydd yn segur yn y sir,
Wedi colli'r statws gwreiddiol,
Dan y morthwyl aiff y mur.

Beth fydd defnydd sawl adeilad
Wedi i'r gwerthiant ddod i ben?
Mam a'i phlentyn mewn ysgariad,
Cam yn ôl yng Ngwalia wen.

Wedi i'r gwreiddyn bach flodeuo
Camu 'mlaen yn ysgolhaig,
Anobeithiol fydd ei hudo
Yma'n ôl i gôl y graig.

Anodd iawn fydd cynnig cysur
I'r oedolion yn y fro,
Er yn derbyn ambell lythyr,
Hiraeth ddaw o dro i dro.

Beth fydd colli'r llu athrawon
Yn olygu i gefn gwlad?
Cawn eu gwled mewn breuddwydion
Wedi'r cwrdd ar faes y gad.

Wedi i'r Cymry gael eu tynnu
O'r ucheldir i lawr gwlad,
Fe ddaw eraill a meddiannu
Llafur cariad mam a thad.

Dafydd Morris, Cefn Coch
Erill 2008

THEATR BARA CAWS

Llwyfan i Lyfr Mawr y Plant

Bydd cyfle i gynulleidfaoedd hen ac ifanc fwynhau sioe deuluol i'w chofio drwy dymor yr hydref eleni wrth i Theatr Bara Caws, ar y cyd gyda Theatr Gwynedd a Galeri, gyhoeddi'r newyddion cyffrous fod sioe gerdd o un o hoff lyfrau plant Cymru ar y gweill.

Bydd y sioe, sydd wedi derbyn nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru i hybu theatr y tu allan i Gaerdydd, yn cychwyn ei thaith yn Theatr Gwynedd ar 4 Hydref, ac yna'n teithio i ganolfannau ledled Cymru, megis Y Pafiliwn yn y Rhyl, Theatr Mwldan yn Aberteifi a Chanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth.

O Siôn Blewyn Coch i Wil Cwac Cwac ac Ifan Twrci Tenau a holl griw swnllyd y buarth, mi fydd y sioe yn frith o gymeriadau'r llyfrau gwreiddiol gan Jenny Thomas a J. O. Williams, a gall cynulleidfaoedd ddisgwyl digon o ganu a dawnio yn ogystal ag actio. Yr awdur, Gareth F. Williams, sy'n gyfrifol am y sgript, gyda Catrin Edwards yn cyfansoddi'n arbennig ar gyfer y sioe. Emyr Rhys yn gyfarwyddwr cerdd a Cai Tomnos yn cynnig ei arbenigedd mewn dawnys ar y coreograffi.

Meddai Tony Llewelyn, cyfarwyddwr y sioe ar ran Theatr Bara Caws,

'Mae'r sioe'n gyfle gwych i gyflwyno rhan bwysig o atgofion a gorffennol cymaint ohonon ni i genhedlaeth newydd. Mae'r llyfr ei hun mor ddoniol a bywiog, a'r cymeriadau'n neidio oddi ar y dudalen. All rhywun ddim peidio â bod yn gynhyrfus iawn am y peth.'

Ychwanega Dafydd Thomas, o Theatr Gwynedd,

'Mae bob amser yn braf cael croesawu cynhyrchiad teuluol fel hyn i Theatr Gwynedd, ond y tro yma mi fydd yr achlysur hyd yn oed yn fwy arbennig, gan mai hwn fydd y cynhyrchiad olaf cyn i'r theatr gau am rai blynyddoedd i gael ei hadnewyddu.

'Gobeithiwn felly lenwi'r theatr yn llawn dop, a dweud ffarwél wrth yr hen Theatr Gwynedd mewn steil.'

Yn rhedeg ochr-yn-ochr â'r sioe llwyfan fe fydd 'Sioe Bach Llyfr Mawr y Plant'. Bwriad y sioe yma yw mynd allan i gymunedau llai, gan gynnig pnawn o adloniant i'r plant lleiaf, rhwng 3-7 oed. Yn ystod y sioe mi fydd y plant yn cael eu cyflwyno i'r cymeriadau ac yn cael cyfle i ganu rhai o'r prif ganeuon o'r sioe fawr.

Meddai Elen ap Robert, cyfarwyddwr artistig Galeri, sy'n gyfrifol am Sioe Fach Llyfr

Mawr y Plant,

'Bwriad y sioe fach yw cynnig blas o'r sioe fawr i leoliadau llai, sedd heb yr adnoddau i lwyfannu'r brif sioe, gan gynnig cyfle i'r sioe gyrraedd plant mewn ardaloedd gwledig neu ddifreintiedig. Mae'r sioe fawr dros ddwy awr o hyd, felly dyma gyfle i'r rhai lleiaf fwynhau awr o sioe heb i'r rhieni orfod poeni dim am wneud twrw.'

Dyweddodd Sian Tomos, Cyfarwyddwraig gogledd Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru,

'Mae Llyfr Mawr y Plant yn rhan o gynllun hynod lwyddiannus Cyngor Celfyddydau Cymru 'Y Celfyddydau Tu Allan i Gaerdydd' a grewyd i alluogi cynulleidfaoedd i fwynhau celfyddydau perfformio o'r safon uchaf mewn lleoliadau dros Gymru gyfan. Rydym yn falch iawn i gefnogi'r cynhyrchiad hwn gan gwmnïau Theatr Bara Caws, Galeri a Theatr Gwynedd.

Byd yn dod â chlasur hoffus Cymraeg i gynulleidfa newydd ac ehangach gyda sioe gerddorol uchelgeisiol newydd sy'n siŵr o syfrdanu cynulleidfaoedd - o bob oed - ar draws Cymru.

Beti Bwt

gan Bet Jones



Yr awdures, Bet Jones, yn wreiddiol o Drefor ym Mhen Llŷn, ond sydd bellach yn byw yn Rhirwlas.

CHWILOTA

Rhodd i Eglwys Sant Padarn, Llanberis



Yn ystod mis Mehefin 1935 bu dathlu Jiwibili'r eglwys yn Llanberis gydag wythnos o ddigwyddiadau. Cyflwynwyd rhoddion i'r eglwys ar yr achlysur; un ohonynt oedd allor dderw gan y Parchedig Dr. Arthur Evans, Rheithor Sible Headingham yn nwyrain Lloegr *'er cof am ei dad a'i fab'*. Yr oedd hefyd yn pregethu yn yr eglwys yn ystod y dathliadau. Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod copi o raglen y dathlu ar gadw yn Awstralia gan aelod o'r teulu. Credir mai er cof am Thomas Evans y rhoddwyd yr allor dderw – ond pwy oedd hwnnw? Dywed y teulu iddo fod yn warden yn eglwys Sant Padarn, ac yn swyddog yn Chwarel Dinorwig.

O archwilio cofnodion y cyfrifiad, gwelir ei fod yn byw yn 2 Stryd Siarlot yn 1871, yn ŵr gweddwyd gyda pedwar o feibion a dwy ferch; y meibion i gyd wedi eu geni ym mhlwyf Llanbeblig a'r merched ym mhlwyf Llanrug. Roedd ei wraig, Jane, wedi marw yn 35 mlwydd oed a'i chladdu yn Llanrug yn 1868. Roedd y teulu bryd hynny yn byw yn Llain Gro, er iddynt fyw yn Court y Guard am gyfnod hefyd. Yr hyn sy'n ddiddorol am gofnod claddu y fam, yw fod y cartref yn cael ei alw yn Lime Grove, gyda Llain Gro wedi ei ychwanegu mewn cromfachau!

Erbyn 1881 roedd Thomas Evans wedi ailbriodi â gwraig o'r enw Susan; un o sir Drefaldwyn yn wreiddiol. Roeddent erbyn hyn yn byw yn Nhaf Fictoria, Llanberis, a'r penteulu yn disgrifio'i hun fel 'quarry agent'. Mae'r bechgyn i gyd wedi gadael cartref erbyn hyn, a dim ond y ddwy ferch sy'n parhau ar ôl.

Yn 1891 mae Thomas Evans yn ŵr gweddwyd am yr eildro, ond yn parhau i fyw yn Nhaf Fictoria. Yno hefyd mae Catherine Griffith yn cadw tŷ iddo. Bu Thomas Evans farw yn 1897 ac fe'i claddwyd yn Llanrug – gyda'i wraig gyntaf, mae'n debyg. Erbyn hyn roedd ei ferch, Elisabeth Harriet, wedi mudo i Awstralia. Roedd hithau'n weddw ifanc yn priodi am yr eildro yn 1896 yn Awstralia. Tybir mai Elliot Jones oedd enw ei gŵr cyntaf ac iddi ei briodi cyn mudo i Awstralia. Bu Elizabeth Harriet farw yn 1947 yn 85 mlwydd oed, a ganddi hi roedd rhaglen Jiwibili eglwys Sant Padarn, Llanberis. Mae wedi ysgrifennu mân nodiadau ar y rhaglen, gan gynnwys y ffaith mai Thomas Evans oedd ei thad.

OND, os oedd Arthur Evans yn cyflwyno'r allor dderw yn rhodd i'r eglwys er cof am ei dad, pam nad oes cyfeiriad ato o gwbl yn yr un o'r cyfrifiadau uchod gyda gweddill y teulu?

Mae posibilrwydd mai Elizabeth Harriet sydd wedi gwneud camgymeriad yn ei

nodiadau ar raglen y Jiwibili. Yn y nodiadau rheini mae'n dweud *'given by Arthur in memory of my dear father, Thomas Evans'*. Ond nid yw'n cyfeirio at Arthur fel ei brawd.

Roedd gan Thomas Evans bedwar o feibion – Wyatt, Hugh, John a Thomas. Efallai mai'r mab o'r un enw a'i dad oedd yn cael ei gofio gyda'r rhodd i'r eglwys. Yn 1885 yr agorwyd eglwys Sant Padarn, ac yr oedd Thomas Evans wedi marw o fewn deuddeng mlynedd. Prin iawn fu'r amser iddo wasanaethu'r eglwys newydd felly. Ond beth am ei fab, Thomas Evans arall? Tybed ai hwn oedd tad Arthur?

Byddai'n ddiddorol cael gwybod mwy am hanes y teulu. Beth ddigwyddodd i'r pedwar mab, ac i'r chwaer arall, sef Jane Ellen? A pham yr aeth Arthur Evans yn rheithor mor bell â swydd Essex? Mae'n od fod gwybodaeth llawnach gennym am hanes y chwaer a aeth i Awstralia nac am y rhai arhosodd gartref.

Glan Alaw

Yn Llanfachraeth, Môn, y magwyd Richard Jones, ac enw'r afon a lifai drwy'r plwyf a gymerodd yn enw barddol. Ond mae ganddo gysylltiadau agos â'r fro hon hefyd, oherwydd bu'n weinidog ym Mrynrefail am nifer helaeth o flynyddoedd. Yn 1879 unwyd capeli'r Glasgoed a Brynrefail yn un ofalaeth dan weinidogaeth y Parch Ellis James Jones, ond ym mis Ionawr 1884, pan symudodd yntau i Lundain, penderfynodd eglwys Brynrefail roi galwad i'r Parch Richard Jones (Glan Alaw), a hynny heb ymgynghori â'r Glasgoed. Cyn hyn bu Glan Alaw yn weinidog gyda'r genhadaeth gartref yn Millom, Cumberland, am chwe mlynedd.

Yn ystod ei gyfnod ef yn weinidog ym Mrynrefail yr adeiladwyd tŷ i'r gweinidog ar gost o £550 ac yna ysgoldy am £800. Yr oedd yn ŵr diwylliedig, yn fardd, ac yn flaenllaw gyda threfniadau Gŵyl Gadeiriol Dinorwig a

gynhaliwyd ar dir y Lllys.

Dywedir ei fod yn gyfeillgar gyda John Ruskin. Tybed a fu hwnnw'n ymweld ag ef ym Mrynrefail? Bu Ruskin farw yn 1900, felly roedd Glan Alaw wedi byw ym Mrynrefail am 16 o flynyddoedd tra'n gyfaill iddo.

Oes mwy o wybodaeth gan unrhyw un o'r darllenwyr am Glan Alaw neu am y cyfeillgarwch â Ruskin?

Anrhegu â ffesantod

Daeth cais pur anarferol gan un o'r darllenwyr y mis hwn. Holi mae ynglŷn â'r posibilrwydd ei bod yn arferiad rhoi anrheg o ffesant i chwarelwr oedd gartref o'i waith oherwydd salwch neu o ganlyniad i ddamwain. Digwyddodd hyn yng Nghwm y Glo, ac un o swyddogion Chwarel Dinorwig yn ymweld â'r cartref ac yn dod â ffesant yn anrheg gydag ef.

Ond yr hyn na ellir rhoi ateb iddo ar hyn o bryd yw: ai'r swyddog oedd wedi cael y ffesant ac yn ei chyflwyno i'r chwarelwr ar ei ran ei hun, yntau a oedd yno yn rhinwedd ei swydd fel swyddog ac yn cyflwyno'r ffesant ar ran goruchwyliaeth y chwarel? Oes unrhyw un arall wedi clywed am hyn yn digwydd i un o'u tadau neu deidiau?

Enwau Anghyffredin

Rai blynyddoedd yn ôl bu ymgyrch i geisio gwneud casgliad o enwau anghyffredin yng Nghymru. Hyd y gwn i, bu'n rhaid rhoi'r ffidil yn y to oherwydd fod gormod ohonynt! Yn ddiweddar deuthum ar draws dau enw anghyffredin – o leiaf ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg – a hynny mewn cartref eithaf diarffordd ar lethrau Moel Rhiwen.

Enw'r tŷ oedd Cae'r Mynydd, ond yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd merch o'r enw Brilliana a mab o'r enw Ylltur yn byw yno. Welais i erioed yr enwau hyn. Teg gofyn, felly, o ble daethant, ac a oes rhai o ddisgynyddion y ddau yn

parhau i fyw yn yr ardal?

Atgofion am Katie Jones

Gan Rhian Williams, Caerdydd, y daeth yr atgofion hyn am ddyddiau plentyndod ac arddegau yn Llanberis.

'Roedd Glasfryn drws nesa i'n tŷ ni, ac yno roedd Katie Jones yn byw. Fel cantores opera roedd hi'n cael ei chyfrif, ond roedd yn gerddor yng ngwir ystyr y gair. Doedd canu 'Hywel a Blodwen' ond un agwedd o'i thalent. Fe âi o'r 'Blue Danube' i 'Singing the Blues' yn rhwydd, a hynny heb sôn am dudalen o gerddoriaeth.'

Mae'n cofio mai nos Wener oedd noson bwysig i griw arddegau'r pentref: dyna pryd y câi'r Aelwyd ei chynnal, ac ar y ffordd adref byddai'n rhaid galw i mewn i Glasfryn. Ac yno, byddid yn canu pa bynnag gân a ddigwyddai fod yn y Top Twenty ar y pryd. Caneuon fel 'Tennessee Waltz' a 'This ol House'.

'Katie yn chwarae'r piano, a phawb arall yn canu am oriau cyn mynd adref.'

Cyn gadael am y coleg ym Manceinion, cyngor Katie Jones i Rhian oedd,

'Gwna dy ora, mwynha dy hun ond paid ag anghofio Llanber.' A wnaeth hithau ddim 'chwaith. Gyda diolch am yr atgofion.

Fel y dywedais y mis diwethaf, mae rhai o'r nodiadau, yn wybodaeth ac yn ymholiadau, wedi bod yn eistedd ar y ddesg gen i ers dros fis bellach. Roedd yr atgofion gan Rhian Williams yn eu plith – a daw, fe ddaw'r gweddill yn ystod y misoedd nesaf, felly byddwch yn amyneddgar! A chofiwch fod ymholiadau eraill yn dal i gyrraedd, a finnau ar brydiau yn teimlo fel ci yn ceisio dal ei gynffon!

Ond daliwch i gysylltu, gan anfon unrhyw wybodaeth am hanes y fro neu unrhyw ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon.

Ffôn: 01286 673515

niace
dysgu cymru

Fel rhan o Wythnos Addysg Oedolion 2008, rhowch gynnig ar hel achau ar y we.

Cynigir cyflwyniad i **Ancestry.com** yn y llyfrgelloedd canlynol:

Llyfrgell DEINIOLEN –

Bore Mercher 21ain o Fai, o 10:00 – 12:00

Llyfrgell LLANBERIS –

Bore Gwener 23ain o Fai, o 9:30 – 11:30

Am ragor o fanylion ffoniwch Alun Williams

(01286) 679465

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto



RHOI COEL AR WELD

Ar adegau, ni alla i yn fy myw glandro symiau! Dianc, fel ryw gymylau wedi troi'n ddefaid, a hynny o'm golwg, wna'r rhifau! Y mae'n rhaid imi fod mewn hwyl tra arbennig cyn mynd ati i gyfri unrhyw beth! Collais gyfri'n lân sawl gwaith y bu imi sefyllian, hindda a drycin, yng nghyffiniau Pont Rhythallt, wrth ymyl tafarn Pen y bont, yn Llanrug. Hyd yn oed ar ddyddiau prysurach na'i gilydd, tra'n teithio ar y bws, mi fyddaf yn cymryd cip sydyn oddi tan flew fy llygaid er mwyn cael gweld a ydyw'r cerflun llonydd ar gael yn un o byllau'r afon. Nid cerflun ydyw, er bod osgo felly arno, ond *crëyr*, neu'r *crychudd*. A phan nad ydyw yno, ebe un hen dd'wediad Cymreig, *wedi hedfan i fyny'r afon mae'r deryn er mwyn agor y fflodiat*, sy'n golygu, meddan nhw imi, ac nid â' i ati i daeru'n ddu-las, y bydd hi maes o law, yn arllwys y glaw!

Ond ai gwir y dywediad? Ynteu ai ofergoel ydyw'r holl beth? Do! Bu imi fwrw golwg ar fy nyddiadur byd Natur, (1990–2008), er mwyn gweld faint o droeon y gwelais i *grëyrod* dan bont Rhythallt, ac a fwriodd hi fel o grwc yn sgil eu dyfodiad yno! Do! buont yno nifer iawn o weithiaw, ond 'chydig iawn yn wir ydyw'r achlysuron pryd y gwiredwyd y dywediad uchod bod glaw yn dyfod bob tro y maent yn hedfan i fyny, neu i lawr yr afon! Onid yw'n dibynnu, dwedwch, ble'n union rydych yn digwydd sefyll? Beth amdanoch chi? A ydyw eich profiad, a'r hyn a welsoch chi'n

dweud fel arall?

Un hanesyn, wrth fynd heibio, cyn clymu'r cwlwm, ond cwmwl roeddwn am ei ddweud, am y mis hwn. Flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, da y cofiaf fy mrawd a finnau, a ninna'n hogia ysgol, fynd ar negas i'm tad, a throedio ar hyd llwybr a ffos ar un ochr iddo. Yn ystod y daith, beth a welsom ond *crëyr glas* yn gorwedd ar ei gefn. Aethom ato, ac ni symudodd o'r fan! Mi adawsom yr aderyn yno, hefo'i hen draed fel ffyn unionsyth uwch ei ben. Wrth ddychwelyd tuag adref ar hyd yr un llwybr, mi welsom y *crëyr* yn hedfan braidd yn chwithig-drymaidd tuag at gledrau'r rheilffordd gerllaw.

Yn fuan wedyn euthum i weld Ted, y Naturiaethwr diwyd, (y diweddar annwyl Ted Breeze Jones), a dweud wrtho am yr hyn a welwyd. Cof am lydanrwydd gwên Ted, a'r hyn a ddywedodd, sef o bosib mai wedi cael cam-dreuliad yr oedd yr aderyn-o-bysgotwr, a hynny ar ôl llyncu homar o slywan, (bu i Ted yntau un tro daro ar gorff marw *crëyr*, a thwll yn ei stumog, – slywan 'falla' wedi tyllu o'r 'stumog).

Ond efallai, meddai Ted ar y pryd, mai gorwedd yn yr haul a wnaeth yr aderyn er mwyn sychu ei blu. Gadewch inni wybod os y gwelsoch chwi ryw beth cyffelyb.

Hwyl ar wyllo, a chofiwch da chi, hefo'r golofn mewn golwg, droi heibio y mis nesa, pryd y byddir yn trafod gwrthrych o bell, a ddaeth yma i drigo i'n plith. sef planhigyn da i gythrael o ddim byd, ym marn rhai pobol, ond i dyfu fel chwyn!

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DRAENOG

Hen Dro'r Hen Huw

A glywsoch chi hanes Huw? Aeth, yr wsnos diwetha, hefo'i wraig am dro i lan y môr. Aeth Jên, ei wraig, i siopio gan adael Huw, a'r Mini Cooper, yn y maes parcio. Ond yn lle codi o'i sedd yn y car a thalu am docyn lle parcio, mi aeth fy mêt i gysgu'n sownd, a phan ddychwelodd Jên ymhen yr awr, roedd 'na rywun o'r Cyngor wedi gosod papur ar sgrin y Mini. Druan o'r hen Huw! Talu yn y fan a'r lle fu raid. Dros ugain punt! Y tro nesa, 'ngwas i, tâl am dy le parcio! Wedyn dos i gysgu!

JONI NI

'Jo-ni!' gwaeddodd ei fam o waelod y grisiau. 'Ma Morus yma yn gofyn nei di gymryd rownd golchi ffenestri hefo fo o heddiw' mlaen.'

'Dwi'n dŵad rŵan, Mam,' atebodd yn gysglyd. Roedd Joni yn lecio'i wely, fel rydach chi wedi dyfalu erbyn hyn, mae'n siŵr, ac roedd hi'n dipyn o sialens i'w gael o allan ohono fo!

'Helo, Joni,' cyfarchodd Morus ef yn rhadlon.

'Helo, Morus,' atebodd, gan lusgo'i hun at y bwrdd brecwast. 'Disgwyl imi gal brecwast gynta, oce.'

'Joni, lle ma dy fanars di, hogyn! Stedda i lawr, Morus. Mi gei di dost a phanad hefo ni rŵan, cyn ichi ddechra ar y rownd.' Edrychodd ei fam yn flin arno. 'Wel, wt ti ddim am roi chwanag o dost yn y tostar?'

Triodd Joni ddangos rhywfaint o ddiddordeb yn y rownd glanhau ffenestri,

'Lle ma'r rownd yn dechra, Moi?'

'Yn y tai cyngor dros y ffordd yma ac wedyn i Lôn Top – ac i fyny'r allt ac am Tai Afon.'

'Ew, ma hynna'n dipyn o dai...' ond torrodd ei fam ar ei draws gan rannu'r tost,

'Wel, mi gewch chi bres bach reit ddel on' cewch, Morus. Dweda wrth Joni ni faint 'nes di y mis dwythya.'

'Wel, dwi'n meddwl mod i wedi gneud yn agos i £200 am y mis – wel, dipyn dros gant ac igian ar ôl tynnu tacs, Joni.'

'Wir yr, Morus? Ew, ma hynna'n bres da, tydi Mam?'

'Wel ydi wir, a does 'na ddim gwaith crwydro'n bell chwaith, ond aros funud,' ychwanegodd ei fam. 'Morus, ma gin ti insiwrans i gyfro Joni a chditha debyg, hefo joban beryg fel golchi ffenestri.'

'Oes, Mrs Jôns. Insiwrans i ddau berson – ma popath yn offisial gin y cownsil ac ma gin i fan fach reit dda rŵan, ychi – digon o le i bopath – y pwcedi melyn a'r hetia calad, yr ystolion a'r petha i llau'r ffenestri.'

'Ew, Morus. Pwcedi melyn a hetia calad melyn hefyd, ia?'

'Y chdi a dy hetia melyn,' petrusodd Morus am eiliad gan grafu'i ben (*fel petai bron â datrys rhyw broblem fawr*) 'fel mae'n digwydd bod – ia, melyn ydyn nhw.'

Cododd Morus oddi wrth y bwrdd, 'Diolch yn fawr, Mrs Jôns. Tyd, Joni – ma'n rhaid i ni ddechra cyn naw o'r gloch.'

'Naw o'r gloch,' meddai Joni, ond torrodd ei fam ar ei draws gan gymryd y llestri brrecwast a'r hanner darn o dost yr oedd o heb ei orffen.

'Wel ia, Joni – mae joban llau ffenestri yn golygu dechra'n fore, ond ydi, Morus?'

'Ydi, Mrs Jôns.'

'Wel, hwyl ichi'ch dau rŵan. Aros, Joni, iti gal dy frechdana bananas a dy fflasg de ar gyfer cinio.'

Dechreuodd y ddau yn y tai cyngor ac erbyn hanner dydd roeddynt wedi gwneud pres reit dda ar ôl gorffen ugain o dai.

'Well inni gal cinio rŵan, Joni. Tyd i fewn i'r fan.'

Erbyn iddyn nhw orffen y tai yn Lôn Top, teimlai Joni bron ar ddisgyn.

'Wt ti'n iawn, Joni? Dim ond Tai Afon eto. Oce?'

'Oce, Morus.'

Wrth i'r ddau gychwyn i fyny'r allt, dechreuodd y fan fygu a thagu...

'O'n i'n meddwl bod gin ti well fan rŵan – be sy'n matar ar hon?'

Yna clywsant chwerthin, a phwy oedd yn eu pasio ar ras wyllt mewn fan reit newydd, hefo ysgolion newydd ar y to ond Now Pyrs.

'Hei, Morus, sori am dy fan, ond well i ni orffan dy joban di yn Tai Afon rŵan, wyt ti ddim yn meddwl? Fedri di ddim llau'r ffenestri, yn y twllwch, 'sti!' ac ychwanegodd yn sbeityld. 'Y cynta i gyrradd Tai Afon bia'r rownd, Oce...?'

Roedd fan Morus wedi stopio yng ngwaelod yr allt ac roedd Now Pyrs wedi cymryd gweddill ei rownd am y diwrnod.

'Joni, mi fydd yn rhaid inni adal hon yn fama a cherddad adra.'

Ymlwybrodd y ddau am adref wedi blino'n llwyr.

'Sori, Joni, ond mi fydd yr hen fan oddi ar y lôn am o leiaf wsnos, wsti. Hwyl fawr!' a gadawodd Joni i egluro i'w fam beth oedd wedi digwydd. 'O! Joni, tyd draw munud i nôl dy bres, oce?'

'Iawn. Hwyl, Morus.'

'Rargian fawr, rwt ti adra'n fuan iawn, Joni. Wt ti neu Morus wedi brifo?'

'Naddo, Mam. Yr hen fan 'na nath dorri i lawr ac mi gymrodd yr hen Now Pyrs 'na y rownd – ond mi ges i bres reit dda. Ma Morus isio imi fynd draw yn nes ymlaen i nôl fy nghyflog am y dwrnod.'

'Tyd, ista i lawr i gal dy de, Joni. Pryd fydd y fan yn barod?'

'Ymhen rhyw bythefnos ddwedodd Morus. Wn i ddim, a deud y gwir, ydw i'n licio'r joban llau ffenestri 'ma – 'ma hi'n job galad iawn, Mam. Wir yr.'

Rhododd ei fam y platiad wy a sgldion o'i flaen, gan ochneidio.

EM.H.

CÔR LL55

Mae angen mwy o aelodau arnom. Os oes ganddoch chi ddiddordeb mewn ymuno â'r Côr, mae croeso cynnes i chi Cysylltwch gyda

Mrs Linda Williams

Ffôn: 07775 501416
neu

Mrs Ellen Hughes

Ffôn: (01286) 672600

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CLWB ORWIG. Dydd Iau, 23 Mawrth, croesawyd aelodau Clwb Orwig gan John Cantrell i Ganolfan Blue Peris. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mr Rex Faulkener a Mr Terry Taylor.

Mynegwyr siom pawb o glywed am gau'r Swyddfa Bost yn Neiniolen, y lle a ddefnyddid gan y rhan fwyaf o'r aelodau. Bydd colled fawr ar ôl Mr Eric Roberts, y Postfeistr. Yr oedd bob amser â gair o groeso i'w gwsmeriaid ac yn barod iawn ei gymwynas iddynt. Yn dilyn bu cryn drafodaeth ar yr anhwylystod a olygai cau'r Post i bawb.

Gwerthfawrogir cyfraniad hael Martin a Glenys o'r Veg Van. Enillwyd y rhodd o'u ffrwythau a llysiau gan Mrs Ann Williams. Diolchwyd hefyd i Rose a John Cantrell am baratoi y te ac am y gwobrau raffl a enillwyd gan Betty Ann Jones a Betty Bower. Enillwyd y rhodd a roddwyd gan Mrs Joan Glass gan Nellie Wyn Jones.

Yn y cyfarfod blaenorol ar 9 Mawrth, mwynhaodd yr aelodau edrych ar yr arddangosfa o gardiau cyfarch o waith Mrs Rose Cantrell,

ac yna cafodd pawb fwynhau'r cyfle i wneud cardiau tebyg eu hunain. Rhoddwyd y te gan Mrs Alice Griffith a Mrs Megan Morris.

NEWID AELWYD. Yr ydym fel ardal yn dymuno yn dda i Mr Dafydd Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, sydd wedi symud i fyw o'r ardal i Borthaethwy. Gobeithio y bydd yn mwynhau ei fywyd yn ei gartref newydd a phob dymuniad da i'r blynyddoedd a ddel. Pob lwc, Dafydd, a paid ag anghofio yr hen ardal.

CROESO'N ÔL. Nid yn aml yr ydym yn gallu rhoi croeso i un o blant yr ardal i ddod yn ôl yma i gartrefu. Felly, pleser yw cael estyn croeso i 6 Maes Eilian i Jennifer Corless a'i dau blentyn, a gobeithio y byddant yn cael iechyd a phob hapusrwydd i'r blynyddoedd a ddel. Pob lwc i ti a'r teulu bach, Jen.

GWYL BREGETHU SARDIS. Cynhelir Cyrrdau Pregethu'r Sulgwyn yn Sardis ar 11 Mai am 2.00 y prynhawn a 5.30 yr hwyr. Y pregethwr gwadd fydd y Parch. Gwynfor Williams, Caernarfon. Croesewir pawb yn gynnes i'r oedfa hon.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Mary Henderson, 6 Erw Wen, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed yn ystod y mis yma. Mae Mrs Henderson wedi treulio cyfnod o amser yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond da ei gweld adref ac yn gwella. Pen-blwydd hapus iawn, Anti Mary.

Mary Henderson yw'r unigolyn hynaf yng Nghaeathro sydd wedi cael ei magu yn y pentref. Roedd hi'n bresennol yn yr agoriad swyddogol o adeilad y capel presennol yn 1928.

CAPEL Y GYMUNED. Bydd yr oedfaon canlynol yn cael eu cynnal ym mis Mai:

4: 10.00 Mr John H. Hughes, Llanberis
11.00: Ysgol Sul

11: (Pentecost)

11.00 Ysgol Sul

18: 11.00 Ysgol Sul

2.00: Parch Gwenda Richards, Caernarfon

25: Dim oedfaon

Llywydd y Mis a Cheidwad Dyddiadur Canolfan y Capel yw Ifor Hughes (674342)

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr ar nos Fawrth, 15 Mawrth. Roedd y Cyng Clive James yn y gadair a chafwyd ymddiheuriad gan y Cyng Vera Roberts.

Yn anffodus, nid oedd Uned Hawliau Tramwyo Cyngor Gwynedd wedi darparu'r mapiau angenrheidiol yn ymwneud â'r llwybrau cyhoeddus. Nid oedd yr Adran Prifffyrdd wedi ymateb i'r cais am gyfyngiadau parcio ychwanegol yn y pentref. Fodd bynnag, roedd yr Adran wedi

gosod wyneb du ar y lôn rhwng Plas Glanrafon a'r Waunfawr.

Disgwylir o hyd am ymateb i'r cais am lanhau ochrau'r briffordd i Gaernarfon a'r hen ffordd i Bontrug, na chwaith ynglŷn â'r defnydd o'r tir y tu ôl i Stad Bryn y Gof.

Penderfynwyd rhoi £200 i Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro a £50 tuag at gostau cynnal Eisteddfod yr Urdd yn y Creuddyn eleni.

Cytunwyd i lythyru gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn ag effaith y ceffylau ar wyneb y llwybr cyhoeddus rhwng y cae pêl-droed a'r fordd newydd.

Gyda'r cyfarfod hwn daeth cyfnod y Cyng Clive James fel Cadeirydd y Cyngor i ben.

PEN-BLWYDD HAPUS.

Llongyfarchiadau i Bledwyn Morgan, Tyddyn Uchaf, ar ei ben-blwydd yn 80 oed.

YMDDEOLIAD. Llongyfarchiadau i Richard Jones, Tryfan, ar ei ymddeoliad o lywodraeth leol. Bu'n gyflogedig am 37 mlynedd - fel bachgen a dyn. Gyda Carey hefyd wedi ymddeol, beth fydd y cam nesaf?

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Ebrill oedd:

£40: (11) Anthony a Tracy Jones, Islwyn; £25: (107) Keith Jones, Bodawel; £15: (46) Aled Jones, 9 Tai Glangwna; £10: (100) Hugh Jones, 22 Tai Glangwna.

LLWYBRAU CYHOEDDUS. Bydd cyfle i gynorthwyo dosbarthu llwybrau cyhoeddus Ward Caeathro yng nghanolfan y Capel, Caeathro, am 7.30yh nos Iau, 15 Mai. Croeso i bawb.

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

*Blodau
Racca*

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
 - Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
 - Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 118 247
 - Planhigion Gardd a Basgedi Crog
- RHODD O'R GALON YW BLODAU



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â **Gomer Roberts**

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.



Golchi a ll'nau Ceir

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Dioddydd Poeth

Costcutter



01286 871521

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar 15 Ebrill.

Cofnodion Mawrth

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cyfeiriodd Phyllis Ellis at gyfarfod cyhoeddus yr Heddlu ym Mhenisa'rwaun a'u bod wedi gofyn pam nad yw'r Cyngor yn atgyweirio cysgodfannau bws. Eglurodd hi wrthynt bod cymaint o fandaleiddio fel bod y cyngor wedi penderfynnu peidio atgyweirio yn barhaol. Dywedodd yr Heddlu bod ganddynt beiriant i ddiddymu graffiti ac y buasent yn cysylltu â'r Clerc. Penderfynwyd eu hatgoffa os na fydd gwybodaeth o fewn pythefnos.

Dywedodd y Clerc bod rhaid i bob Cynghorydd gytuno â'r Côt Ymddygiad cyn y 1af o Fai, ond nad yw wedi derbyn ffurflenni oddi wrth Gyngor Gwynedd er gofyn droeon. Addawodd Mrs Larsen atgoffa Gwynedd.

Cyfeiriwyd at y bwriad o dorri coed yn nghoedwig Blaen Cae, gan gyfeirio at lorïau mawr eraill sy'n defnyddio ffyrdd bychain. Dywedwyd bod arwyddion (llun lori a llinell goch drwyddi) ar rai ffyrdd ym Mhen Llŷn. Penderfynwyd gofyn i Wynedd am arwyddion felly ar ein ffyrdd culion ni.

Delweddau Gareth Roberts. Derbyniwyd adroddiad Gareth yn manylu ar fathau o fapiau, dulliau argraffu a phrisiau gan W. O. Jones, Llangefni; Bear Print, Porthmadog ac Argraffwyr Sackville. Penderfynwyd gofyn iddo geisio prisiau gan Wasg Gwynedd a Gwasg Dwyfor, ac i gyflwyno cost lawn, yn cynnwys ei dreuliau am ddylunio a.y.y.b.

Golau ar lwybr Tan y Ffordd, Bethel - polyn y Bwrdd telathrebu sydd yno.

Derbyniwyd ateb Gwynedd y bydd Swyddogion Gorfodaeth y Cyngor yn cysylltu â pherchennog Derlwyn, Clwt y Bont, ynglŷn â thorri tyfiant i'r ffordd. Ychwanegodd Aled Green bod coed yn amharu ar y ffordd ger Tŷ Bryn Tirion a Tan y Fynwent, Penisa'rwaun, a dywedodd Philip Jones bod hyn hefyd yn broblem ger Blaen Waun, Deiniolen.

Cyflwynwyd ateb Un Llais Cymru yn dyfynnu'r deddfau sy'n caniatáu i'r Cyngor gyfrannu at 'Ymgyrch Y Porth Coffa', Bangor. Penderfynwyd gofyn i'r Brifysgol a oes enwau o'r gymuned yma ar y gofeb.

Derbyniwyd ateb gan Ferched y Wawr, Bethel, bod Mrs Margaret Druce yn eu cynrychioli ar y Pwyllgor Pentref, a bod Prifathro'r ysgol

am gael gair â'r plant ynglŷn â llygredd baw cŵn.

Cadarnhad Gwynedd eu bod yn adolygu dyfodol toiled Deiniolen.

Gohebiaethau eraill

Gwahoddiad First Hydro i ddiwrnod agor 'Ehangu Marchlyn Mawr'. Penderfynwyd hysbysu'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

Dywedodd y Clerc bod person o Ddinorwig wedi gweld car yn taro mainc y Cyngor yn yr Allt Ddu ar y 4ydd o Ebrill a'i bod wedi siarad â'r wraig. Addawodd perchennog y car gysylltu â'r Cyngor ond nid yw wedi gwneud hynny hyd yn hyn. Penderfynwyd hysbysu'r Heddlu.

Fforwm Gwledig Cymru - derbyniwyd eu taflenni ar 'Datblygu Siop y Pentref'. Cymerodd Len Jones un ar gyfer ffenestr Tŷ Elidir ac addawodd y Clerc ddanfôn rhai i'r ddwy siop ym Methel.

Cyhoeddwyd cyfarfod ardal Un Llais Cymru - nos Iau, 24 Ebrill am 7.00 yn yr Institiwt, Caernarfon.

Cynllunio

Lôn Cefn y Waun, Deiniolen: ateb Gwynedd eu bod edrych i mewn i'r mater o adeiladu heb ganiatâd.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Llain o Dir wrth ochr 1 a 2 Pen yr Olchfa, Clwt y Bont: codi tŷ a mynedfa newydd.

Rhoddodd Gwilym Williams gopïau i'r Cyngor o'r 14 o lythrau, a deiseb gyda 58 o enwau ardalwyr arni, sy'n gwrthwynebu'r datblygiad yma. Y prif resymau am wrthwynebu yw:

- culni'r ffordd;
- anhawsterau parcio;
- gorlwytho'r system garthffosiaeth, sy'n anigonnol yn barod;
- torri i lawr llawer o goed;
- llifogydd ar y tir pan fo'r afon yn llawn.

Penderfynwyd cefnogi'r gwrthwynebiadau.

Llain o dir tu cefn i'r Hen Lawnt Bowlio, Deiniolen - datblygiad preswyl. Gwnaeth Geraint Hughes y sylwadau yma:

- Datgan pryder o gynyddu defnydd mynediad cerbydau mor agos i'r Ysgol Feithrin a'r Ysgol Gynradd.
- Angen mwy o wybodaeth am asesiad a llif traffig cyn penderfynnu.
- Hefyd, a oes unrhyw gymal a ellir ei osod gyda'r cais i'r perchennog gadw'r safle yn drwsiadus, trwy fod y lleoliad ynghanol y pentref ac yn ffinio â'r Ysgol Feithrin.

Ychwanegodd Len Jones ei fod wedi gofyn am led o dir i osod palmant heibio i'r lle roedd y gweithdy gwydrau.

Coed Rhydu - cadw tir a choedwig fel safle chwarae gemau gyrnau paent, ynghyd â man parcio. Penderfynwyd cefnogi sylwadau Mrs Larsen i'r Adran Gynllunio - bydd parcio ar ochr y ffordd pan fo'r maes parcio'n llawn, oes modd ehangu'r lle parcio?

Cartref Penisa'rwaun: ymestyn y cartref trwy wneud estyniad 2/3 llawr, dymchwel y gegin, gwneud rhodfa a mannau parcio ychwanegol ynghyd â thirweddau a gwaith draenio. Derbyniwyd rhesymau Mr Oswyn Rowlands i wrthwynebu'r cais.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:

- nid yw rhan o'r tir yn eiddo i'r cartref;
- nid yw'r ffermwr cyfagos wedi caniatáu gosod cyfarpar carthffosiaeth yn ei dir, mae problem llif dŵr yno eisioes. Dŵr yn cronni yn y lôn yn lle llifo trwy'r cwlfer o dan yr adeilad;
- buasai'r estyniad yn creu mwy o drafnidiaeth ar hyd ffordd gul.

Cae Goronwy, Fachwen: estyniad a chodi garej.

Tŷ'n Llidiart, Rhiwlas: estyniad gwydr o flaen yr eiddo.

Tŷ Mawr, Clwt y Bont: adeiladu tŷ a mannau parcio.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Y Fachell, Llanddeiniolen: dymchwel y tŷ is-safonol a chodi tŷ newydd.

Materion ychwanegol

Etholiad y 1af o Fai

Dywedodd y Clerc bod y

dryswch rhwng wardiau Dinorwig a Chlwt y Bont wedi achosi diddymu dau enwebiad. Dywedwyd hefyd bod rhan o Benisa'rwaun yn ward Deiniolen, a bod 'Y Ship' wedi ei symud o ward Penisa'rwaun i Lanrug. Dywedodd Len Jones bod penderfyniad wedi ei wneud ers tro i gyfuno Clwt y Bont, Deiniolen a Dinorwig fel un ward. Penderfynwyd gwahodd swyddog o'r Adran berthnasol i gyfarfod y Cyngor i drafod hyn ac i gywiro'r sefyllfa.

Trefnir i gyfethol Elspeth Mitcheson, Gwilym Williams a Philip Jones.

Y Band Llydan. Gofynnodd Elspeth Mitcheson a oedd ateb oddi wrth BT ynglŷn â Band Llydan i Rhiwlas ac addawodd y Clerc eu hatgoffa. Awgrymodd Len Jones ein bod yn gofyn i Dafydd Einion Jones a allai o fod o gymorth, gan mai ef yw cyd-gysylltydd cwmnïau bychain.

Baw Cŵn. Dywedodd Elspeth Mitcheson bod angen mwy o arwyddion 'Dim Baw Cŵn' yn Rhiwlas. Ychwanegodd Aled Green bod angen arwyddion hefyd ar y ffordd o flaen ysgol Penisa'rwaun. Penderfynwyd hysbysu Gwynedd. Cyfeiriodd Gwilym Williams at lawer o lygredd cŵn a gafwyd yn ystod Ffair Padarn. Penderfynwyd gofyn i Mr Ken Latham, Parc Padarn, roi arwyddion a biniau o gwmpas Gilfach Ddu.

Cyfeiriodd Elspeth Mitcheson at addewid Gwynedd i ailwynebu'r ffordd i mewn i Rhiwlas. Penderfynwyd gofyn iddynt am ddyddiad. Mae'r ffordd, bellach, mewn cyflwr difrifol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6 Mai.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Dylan Griffith

Trefnwr Ângladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan(Llys)

ar 871833

Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorfhwys Preifet

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Clwb Darllen ac Ysgrifennu Creadigol

Bydd Clwb Darllen ac Ysgrifennu Creadigol newydd sbon yn cyfarfod ar ddydd Iau, 8 Mai a phob ail nos Iau pob mis yn yr Ystafell Gymuned, Llyfrgell Caernarfon, am 7.00 o'r gloch.

Bydd croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb mewn llenyddiaeth a darllen i ddod draw am 7pm ar gyfer y cyfarfod cyntaf. Bydd y clwb hefyd yn cyfarfod bob ail nos Iau ymhob mis yn yr Ystafell Gymuned yn Llyfrgell Caernarfon.

Dewch â'ch syniadau, ysbrydoliaeth a'ch meddyliau, a dewch â ffrind. Mae'r clwb yn cael ei sefydlu gan gynllun Hyrwyddo Llenyddiaeth Gwynedd, sef cynllun ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a'r Academi.

Croeso i bawb. Te, coffi a bisged am ddim.

Am ragor o fanylion am y Clwb Darllen ac Ysgrifennu Creadigol, cysylltwch â Gwen Lasarus o Gynllun Hyrwyddo Gwynedd ar (01286) 679465 neu ebostiwrch:

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Un o gymeriadau enwocaf ei ddydd o'r fro hon oedd y Cyngorydd R. H. Owen, neu Robin Pengwaith, fel y gelwid ef yn annwyl gan bawb. Ganed ef yn Tŷ Newydd, Clegir, rhan anghysbell yn yr ardal fynyddig hon. Cartref ei dad oedd Pengwaith a rhywfodd fe gysylltwyd enw R.H. â'r cartref hwn.

Addysgwyd ef yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, a hir oedd y daith ddyddiol o'r Clegir i'r ysgol. Prin iawn oedd manteision addysg yn nyddiau ei blentyndod ond manteisiodd ar Fudiad Addysg y Gweithwyr (W.E.A.) ac, fel llawer Cymro arall, diwylliodd ei hunan a manteisiodd ar y doniau amlwg a feddai. Cawn y gwerinwr sosialaidd hwn yn datblygu'n aelod gwerthfawr o lu o bwyllgorau, gan gynnwys Cyngor Gwryfai a Chyngor Sir Gaernarfon. Am flynyddoedd, gweithiodd yn egniol tros ei fro, ei sir, ac hefyd ei Gymru, ar bwyllgorau a sefydliadau eraill. Bu'n Ynad Heddwch doeth ac anrhydeddwyd ef â'r B.E.M. am ei gyfraniad gwerthfawr i gymdeithas.

Yn dilyn marwolaeth R.H. daeth rhai o'i edmygwyr at ei gilydd ar 13 Chwefror 1974 i ymdrin a thrafod pa fodd y gellid cael coffa amdano. Yn ddiweddarach gwnaed apêl gyhoeddus i sefydlu cronfa, a dyna gychwyn ar Gronfa Goffa R.H. Owen.

Amcan y gronfa yw rhoi cymorth ariannol i bobl ifanc rhwng 12 mlwydd oed a phum mlwydd ar hugain, h.y. i ieuencid ar drothwy gyrfa. Nid cymorth yn unig i fyfyrwyr ar fynd, neu mewn coleg, a roddir, ond i unrhyw berson ifanc sydd ar gychwyn prentisiaeth i unrhyw alwedigaeth. Gyda llaw, y mae'n orfodol i'r bobl ifanc fod yn byw yn nalgylch Ysgol Brynrefail Llanrug.

Y mae *Eco'r Wyddfa* wedi chwarae rhan amlwg yng ngweinyddu'r grantiau drwy hysbysebu, a hynny'n hollol ddi-dâl, am y modd y gellir gwneud ceisiadau i'r Ymddiriedolaeth. Yr ydym yn ddiolchgar i dim yr *Eco* am y caredigrwydd blynyddol hwn.

Yn ystod rhifau Mehefin a Gorffennaf o'r *Eco*, fe ymddengys hysbysiad pwysig am y grantiau blynyddol.

Sylwch yn fanwl, chwi bobl ifanc dalgylch Ysgol Brynrefail, ar yr hysbysiad.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfinedig drwy Warant 3420271

Atodiad Waunfawr (Parhad o dudalen 14)



Staff Caffi Blas y Waun, Antur Waunfawr.

CAFFI BLAS Y WAUN Rhian Graham, Rheolwr

Ar ôl ugain mlynedd yn gwasanaethu yng Nghaernarfon, y mae un o ferched busnes llwyddiannus y dref wedi troedio am y wlad at y Beganifs.

Ar drothwy y Pasg ymunodd Rhian Graham (cyn sieff y Galeri) â chriw Antur Waunfawr.

Yn wir, mae'r Cwmni Elusennol bellach wedi datblygu i fod yn un o gwmnïau ailgylchu mwyaf blaenllaw gogledd Cymru, gyda Caergylchu a Warws Werdd yn eu

hanterth yn hybu'r broses amgylcheddol.

Ond, yng nghalon yr Antur, ym mhentref y Waun, y cewch ddarganfod Rhian, Rheolwraig newydd Caffi Blas y Waun, yn brysur wrth ei gwaith.

Fel wyneb adnabyddus yn y diwydiant arlwyio mae Rhian yn parhau i ddatblygu ei sgiliau naturiol a phroffesiynol o ddarparu bwyd o'r ansawdd gorau. Yn y Caffi ceir gwir dystiolaeth o hyn, gyda chynnyrch cartref a llesol o gacennau blasus, brechdanau ffres, tostis, salads iachus, cyri, cawl ac amryw brydau hydolus - y mae rhywbeth at ddant pawb.

Yn ei swydd newydd y mae Rhian wedi bod yn rhannu ei thalentau â gweithwyr cyfeillgar y Caffi, sef Ann Thorman, Gareth Griffiths, Val Rowlands, Anwen Fletcher a'r cynorthwy-wyr, Ffion Haf Jones a Catherine Williams.

Maen't hefyd yn parhau â llwyddiant gwasanaeth bwffe Blas y Waun, gan gynnig bwydlenni amrywiol ar gyfer cynadleddau, cyfarfodydd a phartïon yn y Warws Werdd a chwmnïau eraill y tu hwnt i'r Antur.

Er ei bod wirioneddol yn mwynhau ei sialens newydd yn Waunfawr, nid yw Rhian wedi troi ei chefn ar y Cofis! Parheir i ddefnyddio y cigoedd gorau gan Wil 'Butch' a'r bara ffres gan Alun Carlton a'i Feibion.

Felly, os hoffech b'nawn braf o gerdded o gwmpas gerddi a pharc natur hyfryd, ymweld â siop grefftiau unigryw neu gael 'Cappuchino' a jangl! yna neidiwch i'ch car, neu ar y trê bach o Gaernarfon, a dewch draw i'r Antur am groeso cynnes.

Os hoffech ragor o wybodaeth am Caffi Blas y Waun, yna cysylltwch â Rhian drwy ffonio (01286) 650721 neu drwy e-bostio: heulwen@anturwaunfawr.org.

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

CHWARAEON

OES GWERSI I'W DYSGU

Wedi dros flwyddyn o ddioddef, a dim arwyddion o wellhad, seliwyd tranc clwb pêl-droed Wrecsam draw yn Henffordd yr wythnos diwethaf. Bydd llawer yn pwyntio bys am resymau'r dirywiad ond codi pais ar ôl piso yw hynny.

Bydd y tymor nesaf tu allan i'r prif gynghreiriau yn anodd. Bydd arian y gynghrair i'r sawl sy'n disgyn yn cadw'r blaidd o'r drws am ychydig. Y cwestiwn mawr yw un o bolisi. A ddylid cario ymlaen i ymddiried yn y polisi ieuencid? Sut mae cynnal diddordeb y cefnogwyr? Yn sicr, mae'r tymor yma wedi dangos na ellir dibynnu ar draddodiad am lwyddiant. Cocyn hitio fydd Wrecsam y tymor nesaf. Y peryg yw iddynt ddisgyn yn ddyfnach i drafferthion. Nid wyf yn ffyddiog iawn yn arweiniad y clwb.

Mor wahanol yn y de. Mae Abertawe wedi elwa o wychder

Stadiwm Liberty, ac hefyd lwyddiant eu cyd-denantiaid, yr Elyrch. Gall Caerdydd edrych ymlaen at Wembley, er na ddaw dyrchafiad eleni. Serch hynny mae'r clwb wedi meithrin ethos Gymreig, ac yn Joe Ledley ac Aaron Ramsey, mae ganddynt ddau o sêr y dyfodol yn ddihamheuol.

Yn sgil cwmp Wrecsam, teimlaf y dylai Bae Colwyn, Merthyr a Chasnewydd edrych yn fanwl ar eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn enwedig Bae Colwyn. Os yw tref o faint Wrecsam yn dioddef sut mae disgwyl i Fae Colwyn lwyddo? Y mae cysgod Lerpwl a Manceinion yn fwy o fygythiad i'r datblygiad.

Mae yn hen ddadl, ond onid nawr yw'r amser iddynt ddychwelyd i nyth Cynghrair Genedlaethol Cymru a'r gwir abwyd o le yng nghystadlaethau Ewrop.

NODDI'R BÊL BACH WEN

Rwyf yn hynod o falch pan dderbyniaf erthygl sy'n mynd â ni o faes y campau traddodiadol. Braf felly oedd derbyn erthygl gan Adrian Roberts, un o hogia 'Stiniog sydd wedi ymgartrefu ym Mro'r Eco.

Y mae Adrian, a 30 arall, yn aelodau o Gymdeithas Golff Dyffryn Peris, a ffurfiwyd yn 2007. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn cyfarfod unwaith y mis ar y Sul i gystadlu mewn cystadlaethau mewnol. Fel pob Cymdeithas maent yn awyddus i ddenu aelodau newydd i'w rhengoedd. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymaelodi gellir cysylltu â Dylan Jones, y Cadeirydd, ar (01286) 870777.

Yn ddiweddar, denodd y Gymdeithas noddwr, sef cwmni Hillserve Insulation. Yng ngwyntoedd garw Ebrill bydd yr aelodau yn gynnes yn eu 'crysau gwynt' nodedig.

Bydd y cwmni hefyd yn noddw Cwpan Hillserve, i'w chystadlu amdani yn flynyddol.

Priod faes cwmni Hillserve, mewn cysylltiad â'r Cyngor Sir a Nwy Prydain, yw arbenigo mewn gosod mesurau insiwleiddio mewn tai yn y sector breifat. Y newyddion da yw bod y Cynllun yma yn cynnig y mesurau yn rhad ac am ddim i drigolion wardiau penodol yn eu tro. Bydd y Cynllun yn cael ei lawnsio yn Llanberis ar 8 Mai, ac yna ar gyfer wardiau Llanrug, Penisarwaun a Chwm y Glo ar Fehefin 26.

Pob lwc i'r Gymdeithas, ac edrychaf ymlaen i groniclo hanes y 'twll mewn un' cyntaf gan un o'r aelodau. Yn y darlun gwelir Anita Jones, Rheolwraig Datblygu Busnes Cwmni Hillserve gyda Dylan Jones, Cadeirydd y Gymdeithas.



CLWB HOCI CAERNARFON

Mae Clwb Hoci Caernarfon yn hyfforddi yn Llanrug, yn chwarae eu gemau cartref yn Llanrug ac mae nifer o ferched o ardal yr Eco yn chwarae i'r tîm.

Cafodd y clwb dymor da unwaith eto, gyda'r tîm cyntaf yn cadw eu lle yn yr Adran Gyntaf a'r ail dîm yn yr Ail Adran.

Eleni mae'r clwb wedi parhau i feithrin eu talent ifanc. Mae criw mawr o ddisgyblion Ysgol Brynrefail a Syr Hugh Owen yn hyfforddi gyda'r adran ieuencid, a disgyblion Dyffryn Nantlle yn ymuno â'r oedran hyn. I orffen y tymor i'r ieuencid eleni cafwyd trip i Ddilyn am y diwrnod i chwarae yn erbyn ysgol breifat yn Dun Laoghaire.

Chwaraeodd y tîm dan 14, sydd yn gymysgedd o genod o Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Brynrefail gyntaf. Ellen Jones a Gwenno Gibbard oedd capteiniaid y tîm ar y diwrnod.

Er i'r genod chwarae yn arbennig o dda, colli o 4-0 a wmaethant.

Y tîm dan 18 oedd yn chwarae nesaf. Roedd hon yn gêm agos iawn gyda Lois Welsh fel capten yn annog ei thîm ymlaen. Sgoriodd Gwawr Hughes i roi Caernarfon ar y blaen 1-0, ond gyda 15 munud i fynd sgoriodd Ysgol Rathdown i wneud y sgôr yn gyfartal, a dyna fu canlyniad y gêm! Cafodd y genod hwyl yn siopa wedyn yn Nulyn cyn dal y cwch adref!

Roedd y gêm hon yn ymarfer da i'r tîm dan 18 cyn eu gêm yn rownd derfynol Cwpan Cymru. Llwyddodd y genod dan 18 i ddod yn bencampwyr gogledd Cymru yn Nhwrnament RAF dan 18 oed. Maent yn mynd ymlaen i gynrychioli gogledd Cymru yn erbyn pencampwyr y de ar 10 Mai yn y Drenewydd i weld pwy fydd pencampwyr Cymru. Pob lwc i'r genod!



CRICED

Ydy, mae'r eira ar y mynyddoedd felly mae'n amser cael y dillad gwyn allan. Bydd cryn edrych ymlaen at ymweliad Morgannwg, dan arweiniad Matthew Maynard, i Fae Colwyn.

Yn anffodus nid oes clwb yn nalgylch bro'r Eco ond, ers sawl tymor bellach, mae nifer o ieuencid y fro yn dod i lawr i'r nosweithiau hyfforddi ar nos Iau yng nghlwb criced Bangor yn Llandegai. Yno ceir dwy awr o hyfforddiant am gost o £1 y sesiwn. Erbyn hyn mae rhyw

hanner dwsin o chwaraewyr hyn o'r fro yn chwarae i'r clwb.

I'r ieuencid, ar wahân i'r noson hyfforddi ceir timau dan 11, 13 ac 15. Y tymor diwethaf chwaraewyd ambell gêm dan 9 hefyd. Os am fwy o fanylion cysylltwch â mi, neu'r clwb (01248) 362729.

Un sydd wedi elwa eisioes yw Siôn Evans, 13 oed o Benisarwaun. Un o'r brid prin hynny - y troellwr coes - yw Siôn. Mae yn aelod o garfan -13 Eryri, ac yn aelod o dîm hyn clwb Bangor yn y Gynghrair Datblygu.

TLWS YR ECO 2008

Oes, mae blwyddyn arall wedi hedfan. Eleni, byddwn yn torri tir newydd gyda gemau yn Llanrug, Deiniolen a Bethel. Oherwydd diffyg gofod y mis yma, ni ellir cynnwys y ffurflen gofrestru arferol. Felly gofynnaf i'r rheolwyr anfon enwau'r timau a'r tâl - £10 y tîm - cyn gynted â phosibl. Dyma'r dyddiadau pwysig:

Nos Fercher, Mehefin 25:

Pêl-droed dan 7 a Phêl-rwyd - Ysgol Llanrug

Nos Iau, Mehefin 26:

Pêl-droed dan 9 - Y Bwthyn, Deiniolen

Nos Lun, Mehefin 30:

Pêl-droed dan 11 - Bethel

DIOLCH O FLAEN LLAW AM EICH CYDWEITHREDIAD PAROD.